

2. Iaith *Peredur*

2.1 Adnabod geiriau

Yn unol ag un o batrymau cyffredin ei gyfnod, mewn dwy golofn o ryw 55 mm (dwy fodfedd a chwarter) o led yr ysgrifennai Llaw D ar ei femrwn.^{1,2} Colofnau gweddol gul oedd y rhain ond nid damweiniol oedd eu maint: byddai llinellau byr nid yn unig yn haws eu hysgrifennu na rhai hir ond byddent hefyd yn hwylusach i'r darlennydd. Ond yr oedd pris i'w dalu am y cyfleustra hwn: ni fyddai lle ar linell ond i ryw 32 o unedau graffig (yn llythrennau neu ofodau), sef oddeutu chwe 'gair' orgraffyddol. Cyflyrai'r cyfyngu hwn rannu llawer o eiriau rhwng dwy linell ac y mae'n bosibl iddo gyfrannu hefyd at amrywio maint y gofod a adewid rhwng pob olyniad.

Ar dro byddai'r ysgrifydd yn defnyddio <=> neu <-> i ddangos bod gair yn parhau dros ffin y llinell. Ond gallai'r trychu fod yn ddirybudd, fel yn yr enghreifftiau canlynol yng ngholofn 129 (cf. Evans 1907: 65):

<kych wyn> 'cychwyn'	<eis ted> 'eistedd'
<bø yta> 'bwyta'	<ganh unt> 'ganddynt'
<amgy fret> 'amgyffred'	<[g oruga nt> 'gorugant'

Fel y gwelir, ni rennid yn ôl unrhyw reolau ieithyddol; yn hytrach, byddai Llaw D yn torri gair yn y fan a fynnai, gan rannu sillafau a deugraffau yn ôl ei fympty. Gallai'r trychu gwmpasu hefyd ymadroddion a geiriau cyfansawdd y gellid eu hysgrifennu fel arall yn un olyniad (e.e. <ygkylch> ac <yg | kylch>), ffenomen sy'n cymhlethu olrhain arwyddocâd sillafu anghonfensiynol, y modd y cysyniai'r ysgrifydd am hunaniaeth y gair, ac yr acennid rhai olyniadau.

Wrth geisio cyd-destunoli ffurfiau fel yr uchod, y mae'n bwysig nodi bod confensiynau ar gyfer rhannu ymadroddion yn eiriau wedi eu datblygu yn Ewrop erbyn y ddeuddegfed ganrif (Parkes 1992: 41). Er nad oedd ysgrifwyr y Gymraeg heb gyfranogi o'r symudiad hwn nid oedd hunaniaeth eiriol pob elfen wedi ymsefydlogi hyd yn oed yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, pryd y lluniwyd Llyfr Gwyn Rhydderch. Gallu geiriau i gynnal acen bwys oedd craidd y problem.

¹ Eithriad nodedig i'r patrwm cyffredinol yw col. 125, sy'n 65mm, lled nad yw'n gadael ond 50 mm ar gyfer col. 126. Mae'n arwyddocaol o safbwynt llunio'r llawysgrif fod yr afreoleidd-dra hwn yn cyd-ddigwydd â nodweddion eraill: ar ddechrau ffolio newydd y daw col. 125, y mae <llaó>, sef gair olaf y golofn flaenorol (124), wedi ei ysgrifennu ar linell ar wahân ac ar ymyl dde'r llinell honno am nad oedd lle iddo ar y llinell ei hun, a <Dioer>, gair cyntaf col. 125, yn dechrau â phriflythyren led addurnedig (yn nhermau Llaw D). Dichon, felly, i'r ysgrifydd amcangyfrif y gofod a gymerai'r pedair dalen (a'r wyth colofn) gyntaf er mwyn iddynt gydio yng ngholofnau 125-6, a ysgrifenasid eisoes.

² Disgrifir rhai o briodoleddau ysgrifen Llaw D gan Huws (2000: 232-44).

Un o briodoleddau geiriau nodweddiadol y Gymraeg yw bod iddynt acen bwys; ar y goben y daw hon fel rheol mewn geiriau lluosill. Y mae hefyd set fach o eiriau na allant gynnal acen bwys (geiriau unsill fel y rhagenwau blaen a'r rhagenw perthynol), a set arall (sy'n cynnwys y fannod, arddodiaid a'r rhagenwau ôl ategol) na fydd ei haelodau yn cynnal acen ond pan fydd pwyslais arnynt. Olyniad ac iddo un amlinell oslefol ac un acen bwys yw ymadrodd ffonolegol. Pan fydd gair diacen – ac yn enwedig un sy'n sbarduno treiglo – yn digwydd mewn ymadrodd ffonolegol fel /a'χəvəɾχ/, /əŋ'həyɪnt/, /agə'hərðəuð/, gall fod yn anodd pennu sawl gair ffonolegol sydd ynddo. Gallai ansicrwydd o'r fath fod wedi cyfrannu at y gofodi amrywiol rhwng geiriau yn llawysgrifau Cymraeg yr oesoedd canol, ac at y duedd i ysgrifennu elfennau diacen yn rhan o'r gair y dibynnent arno; cf.

<Aphan> 'A phan'	<Aðochi> 'A wyddoch chi'
<Nysymudaðd> 'Ni symudodd'	<ermeitin> 'ers meitin'
<ybei> 'y byddai'	<ydywaðt> 'y dywedodd'

Gan fod golygiad gofalus Evans (1907) yn ffynhonnell hylaw ar gyfer olrhain manylion gofodi'r llawysgrif ni cheisiwyd eu hatgynhyrchu yma. Nid dibwys, efallai, yw crybwyll nad hawdd bob amser yw cytuno â Gwenogvryn Evans am ofodi: pan gymherir ei fersiwn ef â'r Llyfr Gwyn ei hun, gall fod yn anodd pennu a oes bylchau rhwng rhai unedau ai peidio. Yng nghyd-destun olyniadau fel <Aphan>, fodd bynnag, y mae ffurfiau fel <kyt eisted> a <ger bron> yn awgrymu bod yma geisio cynrychioli /'ki:d'əisteð/ a /ger'brøn/; y mae'n bosibl, hefyd, fod dybledau fel <byrr velyn> (ll. 1054) a <llað uorynyon> (ll. 416-7) ond <byrruelyn> (ll. 1059) a <llaðuorynyon> (ll. 532) yn cynrychioli dau aceniad gwahanol.³ Os adlewyrchu'r llafar y mae amrywiadau o'r fath y mae'n debyg nad /'melvoχ/ (fel y tybiai Goetinck 1976: 10.20) ond /'me:l 'vo:χ/ a gyfleir gan <mel voch> (ll.68), a bod aceniad Llaw D yn wahanol i eiddo Hywel Vychan, a ysgrifennodd <meluoch> (Rhÿs & Evans 1887: 196.10).

Un o nodweddion amlwg gofodi amrywiol yw'r modd y trafodir rhifolion. Pan fydd rhifolyn yn goleddfu enw y mae'n arferol rhannu'r ddau air â bwlch, e.e.

seith meib oed idað 'yr oedd ganddo saith o feibion' (ll. 1)
ef a welei tri gweis 'gwelai dri gwas' (ll. 370)

Gan fod <seith meib> uchod wedi ei ysgrifennu'n ddwy uned a bod hynny'n cyfateb i'r gystrawen ddiweddar *saith o feibion* (cystrawen nas ceir yn *Peredur*), ymddengys mai acennu'r ddwy uned ar wahân – /'səiθ 'məib/

³ Ceir <ger bron> bum gwaith, a <kerbron> unwaith. Ni ellir dyfarnu am <byrr | velyn> (ll. 1062). Ni sylwais ar yr un enghraifft sicr o rannu gair yn sillafau ar yr un llinell.

– a wneid. Ond pan gysynnir am y nifer dan sylw fel uned yn hytrach nag fel unigolion, fe ysgrifennir rhifol unsill a'r enw yn un gair cyfansawdd:

ef a las . ac ef a'y chwemeib (ll. 4) 'lladdwyd ef, gyda'i chwe mab'
ieuhaf oed hōnnó o'y seithmeib (ll. 5) 'yr ieuaf oedd hwnnw o'i saith mab'
chwethorth o vara cann gan y llall . (ll. 318) 'chwe thorth o fara gwyn gan y llall'
llad y trywyr a oruc peredur . (ll. 923) 'lladd y tri gŵr a wnaeth Peredur'

Mae'r <try> ⇐ /trə/ (ffurf wan ar /tri:/ 'tri') yn <trywyr> yn cadarnhau aceniad y ffurf olaf.

Y mae i bresenoldeb neu absenoldeb bwlch ymhlygiadau acennol mewn cyd-destunau eraill hefyd; sylwer ar y gwahaniaethau canlynol rhwng golygiad Goetinck a'r llawysgrif:

GOETINCK	Y LLYFR GWYN
<y wers hon>	<y werшон>
<ol yn ol>	<olynol>
<Ha wyr>	<Haóyr>
<dy gychwyn>	<dygychwyn>
<moelgethinyon>	<moel gethinyon>
<Oia>	<Oi a>

Un gair yw <wershon> (ll. 208) yn y llawysgrif (128.22), fel <weithon> (128.18, 24) 'y waith hon' o boptu iddo, ac <aórhon> 'awron'.⁴ Mae'n ddigon posibl, felly, mai /'werson/ oedd yr ynganiad, fel mai anodd cyfiawnhau rhannu'r olyniad mewn golygiad. Ni welaf reswm ychwaith dros rannu elfennau <olynol> (ll. 457) ffurf y mae ei aceniad gobennol mewn Cymraeg Diweddar yn cynnig patrwm posibl (er nad angenrheidiol) ar gyfer cyfnod cynharach hefyd. Trydydd olyniad y mae ei rannu yn cyfleu ynganiad gwahanol yw <Haóyr> (ll. 644), ebychiad o enau Arthur. <Ha wyr> 'Ha wŷr' (/ha: 'wi:r/) boneddigaidd sydd gan Goetinck (1976: 41.16), eithr pan gofir bod Llaw D yn cyfleu /wi:/ ag <wy> yn <wyr, trywyr> '[g]wŷr, tri gŵr', ond /ui/ ag <óy> yn <óyf, óyt, óyr> 'wyf, wyt, [g]wŷr', ymddengys yn fwy tebygol mai /hauir/ neu /hawir/ mwy gwerinol a ddywedodd yr ymherodr.⁵

O'n safbwynt ni, nid yr ynganiad yn gymaint â'r gystrawen a newidir yn y cyd-destun canlynol:

'aro y genhyfi gyghoreu kyn dygychwyn' . (ll. 48-9)

⁴ Cofier bod Llaw D yn ysgrifennu <h> etymolegol bron yn ddiwahân ar ddechrau'r sillaf olaf, mewn geiriau fel <brenhin, kyghor, genhyf, ieuhaſ> 'brenin, cyngor, gennyf, ieuaf', cytsain y mae'n dra annhebygol y byddai iddi sylweddoliad llafar (cf. 2.9, N.44).

⁵ Sylwer ymhellach ar ymbatrymu rheolaidd ac etymolegol briodol <wy> ⇐ /wi/ ac <óy> ⇐ /ui/ ar ôl <r>: <kyfróy, moróyn, tróydet> ond <kyfarwyd, deórwyr, herwyd, syberwyt>; ar ôl /l/: <arglóyd, blóydyd, eglóys, golóyth> ond <milwyr>; ac ar ôl <h>: <canhóyll, góenhóyfar, hóyneb> ond <kychwyn, gochwys diwygyat>. Dyma bwnc arall i'w archwilio'n fanylach.

Yn wahanol i Goetinck (1976: 9.22), sy'n gweld y rhagenw blaen *dy* + y berfenw *kychwyn* yma, fy nehongliad i yw mai'r rhagddodiad (cryfhaol yn wreiddiol) *dy-* sy'n rhagflaenu'r berfenw.⁶ Cynnyrch cymdeithas a ramadegeiddiwyd ac a all graffu'n hamddenol ar iaith ysgrifenedig hynafol yw'r gwahaniaeth barn am gyfansoddion <dygychwyn>: mae'n fwy tebygol mai cyfleu'r ynganiad a hawliai flaenoriaeth Llaw D. Ymddengys yn arwyddocaol, felly, nad <Oia> (ffurf Goetinck) ond <Oi a> sydd yn ei llawysgrif, a hynny bedair gwaith (131.13, 147.18, 169.7, 172.37). Mae hynny'n unol â phatrwm <Och a (truan)> (170.15) ac mae'n debygol, felly, nad /'ɔia voruɪn de:ɡ/ a ddywedodd Peredur (ll. 579, 1076-7), ond /'ɔi a voruɪn de:ɡ/. Tybiaf hefyd mai ystyriaethau aceniadol a gyflyrodd ysgrifennu'r ansoddair cyfansawdd canlynol yn ddwy uned (yn hytrach na'r un sydd gan Goetinck 1976: 42.25):

ef a welei tri gweis moel gethinyon yn gŵare gŵydbŵyll . (ll. 671-2)

Os yw gofodi'n cyfleu negeseuon aceniadol mewn rhai cyd-destunau, neges forffolegol ynglŷn â hunaniaeth unedau unigol a'u statws geiriol sydd iddo mewn achosion eraill. Amlygir hynny gan ddiffyg cysondeb Llaw D wrth ysgrifennu'r arddodiad *yn* a'r rhagenw blaen *fy*, a all gael eu huno â'r elfen ddilynol neu beidio (2.6). Yn yr un modd nid oes dal a ysgrifennir <ymyŵn> neu <y myŵn>, <ohonof, ohonaŵ> neu <o honaf, o honaŵ>. Cadwyd yr amrywiadau hyn yn y golygiad: mympwyol fyddai dewis y naill gynrychioliad neu'r llall ac os nad oedd cysondeb yn rhinwedd i Law D, pam y dylem orfodi hynny ar ei ieithwedd?

Nodweddion graffemig

2.2 Y ffonemau a'r graffemau

Yr un oedd ffonemau cytseiniol Cymraeg y cyfnod canol ag eiddo'r presennol. Er hynny, nid oedd y sustem graffemig yn gwbl sefydlog a diamwys. Yn un peth, nid oedd iddo wedi dyfeisio modd i wahaniaethu rhwng /t̪/ a /t/, ac nid yw'n eglur ychwaith a oedd /s/ wedi datblygu ai peidio. At hynny, yr oedd rhai graffemau'n amrywiol.

Yr oedd tair gradd o faintioli i graffemau Llaw D (2.22). Y rhai bach sy'n cynrychioli'r ffonemau cytseiniol yw:

⁶ Cyfyd problem debyg ynglŷn â <dyuot>, sef ffurf y llawysgrif yn y cyd-destun canlynol:
am dy uot yn achaŵs o'e hagheu yd ŵyt yn yscymun . (ll. 267)

Yn y pen draw, yr olyniad tebyg blaenorol, lle y rhennir yn y llawysgrif, a gyflyrodd ddioli yn y golygiad; cf.

Am dy vot yn achaŵs y lad dy vam . (ll. 265)

FFONEM	GRAFFEM	FFONEM	GRAFFEM
/p/	<p, pp>	/b/	<b, p>
/t/	<t, tt>	/d/	<d, t>
/k/	<c, k, cc, ck>	/g/	<g, c>
/f/	<ff, f, ph>	/v/	<f, v, u>
/s/	<s, ss> ⁷	/ð/	<d, (dd, th)>
/θ/	<th>		
/ç/	<ch>		
/h/	<h>		
/ʌ/	<ll>	/l/	<l>
/r/	<r>	/r/	<r> ⁸
/m/	<m>	/w/	<w, ɸ>
/n/	<n>	/j/	<i, y>
/ŋ/	<g>		

Y llafariaid syml (byr a hir) a'r graffemau sy'n eu cynrychioli yn *Peredur* yw:

FFONEM	GRAFFEM	FFONEM	GRAFFEM	FFONEM	GRAFFEM
/i(:)/; /y(:)/	<i>; <u, v>	/i(:)/	<y>	/u(:)/	<w, u, ɸ>
/e(:)/	<e>	/ə(:)/	<y>	/o(:)/	<o>
/a(:)/	<a>				

Ar wahân i bresenoldeb /y(:)/, yr un yw'r rhestr ffonemau uchod ag eiddo Cymraeg presennol y Gogledd. O ran y wedd ysgrifenedig, y mae arfer y cyfnod diweddar o gynrychioli /i(:)/ ac /ə(:)/ ag <y> eisoes wedi ei sefydlu ond y mae hefyd orymylu rhwng y graffemau sy'n cyfleu /y(:)/ ac /u(:)/ (2.7).⁹

Yn y cyfnod canol yr oedd gan y Gymraeg bedair set o ddeuseiniaid: y tair a geir heddiw mewn Cymraeg gogleddol, sydd yn cau i gyfeiriad /i, i/ ac /u/, ac un bellach, a gaeai i gyfeiriad /y/. Enghreifftir y rhain isod drwy ddangos y cyfatebiaethau rhwng y deuseiniaid a'r deugraffau sydd yn eu cynrychioli yn *Peredur* mewn tri safle yn y gair:

⁷ Allgraff a ddefnyddiai Llaw D ar ddechrau geiriau ac ac yn eu canol oedd |s|.

⁸ Allgraff ar ôl graffemau 'crwn' (<p, b, d, o, ɸ>) a /v/ oedd |ʒ| (cf. Denholm-Young 1954: 44).

⁹ Fel Dwylo C ac E (ond nid A a B), rhoddai Llaw D ddot yn gyson yng nghwpan yr <<> (Huws 2000: 234). Nodwedd fenthyg oedd hon a geid yn orgraff y Saesneg erbyn y ddeuddegfed ganrif ac a oedd yn gyfredol hefyd yn y bedwaredd ar ddeg er mwyn arbed drysu rhwng <y> a < > (Johnson & Jenkinson 1915: 56, Strang 1970: 158).

DEUSAIN	DEUGRAFF	UNSILL	GOBEN	SILLAF OLAF
/ei/	<ei> ¹⁰	<reit>	<gweirglaðd>	<clyðei>
/a:i/	<ai>	<ai> ‘âi’ ¹¹	—	—
/oi/	<oi>	<troi> ¹²	—	—
/ei/	<ey>		<treythir> ¹³	
/a:i/	<ae>	<saer>	<saethu>	<milðryaeth>
/ai/	<ay> ¹⁴	<gwayð>	<dayoni>	<llechwayð>
/o:i/	<oe>	<moes>	<doethost>	<daroed>
/oi/	<oy>	<gloyð>	<gloyðdu>	?<arhoych> ¹⁵
/ui/	<ôy>	<mðyn>	<esmðythter>	<canhðyll>
/ey/	<eu>	<neu>	<neuad>	<karneu>
/iʊ/	<ið>	<gwið>	<gordiðes>	<yttið>
/eu/	<eð>	<lleð>	<deðraf>	—
/au/	<að>	<maðr>	<kaðssei>	<marchaðc>
/iʊ/	<yð>	<yð>	—	<kyfryð>
/əʊ/	<yð>	—	<ystryðys>	—

¹⁰ Ceir hefyd un enghraifft o <ey> yn <neyll> ‘naill’ (ll. 878); <neill> sy’n arferol.

¹¹ Dim ond un enghraifft o <ai> sydd yn *Peredur*: <ai> ‘âi’. Cynrychioli cywasgu <aei> ⇐ [a:əi] – gyda llwyr gymathu’r [ə] ganol at ei chyd-destun – y mae <ai>; dichon, felly, mai [ai] a gynrychiolidd ganddi. Ceir y ffurf geidwadol <aei> hefyd.

Nid dyma’r unig enghraifft o <ai> ‘âi’ yn y Llyfr Gwyn: fe’i ceir hefyd yn *Owein* (Thomson 1961: 22.608) a *Gereint* (Thomson 1997: 54.1444); cf. hefyd <gwnai> (yn hytrach na <gwnaei>) yn *Llyfr Du Caerfyrddin* (Jarman 1982: 148), *Branwen* (Williams 1930: 42.23), *Owein* (Thomson 1961: 21.578), a *Gereint* (Thomson 1997: 4.98, 10.289). Tystir i ddatblygiad pellach gan <gwnay> ‘gwnâi’ y Llyfr Coch. Cywasgu’r ddeusain [əi] yn [i] drwy gymathu elfen ganol yr [ə] ac elfen gaeedig yr [i] a adlewyrchir yma, proses ddigon gwahanol i’r hyn a welir yn <aei> → <ai> ‘âi’ yn P4, ac a allai fod wedi ei chyfyngu i ardaloedd penodol. Mae ffurfiau yn [a:i] yn fyw mewn tafodieithoedd gogleddol cyfredol; cf. [a:i, gna:i] (Fynes-Clinton 1913: 384, 153).

¹² A hefyd yn y sillaf olaf acennog yn <deffroi> ‘deffro’.

¹³ Ffurf hynod am ei bod – yn wahanol i <gðayðfon> a <saethu> – yn dangos gwyrto gobennol.

¹⁴ Dim ond mewn dau air unsill tua’r dechrau y cyfyd <ay> yn *Peredur*: <ay> ‘ai’ (ll.33) a <may> ‘mae’ (ll.3), ill dau’n ddybledau i’r ffurfiau cyfatebol yn <ae>. Y mae <ay> yn helaethach yn y goben a hynny nid oherwydd nifer y geiriau unigol a all ei chynnwys – dim ond yn <gðrhayssant, gðayð, hayarn, rayadyr, trayan, traygefyn> y’i ceir – ond yn sgîl niferoedd yr enghreifftiau ohoni: oherwydd amllder digwydd <gðayð> a <trayan> ni cheir <ae> ond yn 45 (59.21%) o’r 76 enghraifft bosibl. Nid yw’n glir beth a gyflyrai ddewis <ay> yn hytrach nag <ae> ac y mae’n bosibl mai nodwedd ar yr ysgrifydd unigol ydoedd.

¹⁵ Deugraff brin yw <oy>. Ar wahân i’r ansoddair <gloyð> ‘gloyw’, yn y berfau <arhoych> ‘arhoych’ a <doy> ‘deui’ y’i ceir. Y mae’n bosibl y byddai hunaniaeth yr ôl-ddodiaid <-ych> ac <-y> pan na ddilynt <o> wedi cyfrannu at gadw’r <y> yn y ffurfiau hyn a’i ffrwyno rhag ymgyfnewid ag <e>. Ond y mae hefyd yn bosibl mai teirsill oedd <arhoych> (h.y. [arho:iχ]) ac mai deusill oedd <doy> (h.y. [do:i]). Dichon mai arwyddo olyniad o ddwy lafariaid a wnâi <oy> ar un adeg neu i rai, ac mai <oe> a ddynodai’r ddeusain.

2.3 (c-): Newidyn isymwybodol

Ar ddechrau geiriau y ceir /k/ amlaf yn y Gymraeg ac yn y cyd-destun hwnnw gallai <c> neu <k> ei chyfleu yn y cyfnod canol (Evans 1970: 7). Er hynny, nid amrywio'n ddibatrwm y bydd <c> a <k> yn *Peredur*: dim ond o flaen <i, e, y> ac <a> y ceir <k> fel rheol, e.e.

<ki, kic, kinyaw> 'ci, cig, cinio'

<kedernit, keissaó, kennat> 'cadernid, ceisio, cennad'

<kymryt, kynt, kyscu> 'cymryd, cynt, cysgu'

<kam, kampeu, karchar> 'cam, campau, carchar'

<c> sy'n nodweddiadol o flaen <o, l, r>,¹⁶ e.e.

<coet, colwyn, cor> 'coet, colwyn, cor'

<claó, cledyf, cloff> 'clawr, cleddyf, cloff'

<cret, cruc, crón> 'cret, cruc, crwn'

Gan fod mwy o eiriau Cymraeg yn dechrau â /k/ nag â'r un gytsain arall gellir cynhyrchu proffil lled fanwl i (c-) (sef y newidyn sy'n crynhoi'r amrywio rhwng <c> a <k> yn nhermau amlygrwydd <c>). Tri chyd-destun sy'n amrywio eithr y mae i bob un o'r rhain dueddiadau pendant iawn:

CYD-DESTUN	%
___r	98.21
___o	98.04
___a	21.74

Prif dueddiadau'r testun, felly, yw:¹⁷

GRAFFEM	
DDILYNOL	(c-)
<i, e, y, a>	<k>
<o, l, r>	<c>

Er mor daclus yw'r ymbatrymu cyffredinol hwn, nid yw'n esbonio bodolaeth dwy graffem ar gyfer cyfleu /k/. O safbwynt hanesyddol, presenoldeb <k> yw'r broblem oherwydd ni ddefnyddid hon yng nghyfnod Hen Gymraeg (Lewis 1961) ac nid oes unrhyw sbardun mewol amlwg i'w mabwysiadu. Nid syn hynny oherwydd nid yn nhraddodiad y Gymraeg y mae ffynhonnell <k>.

¹⁶ Ni ellir bod mor sicr am bob cyd-destun. Nd yw *Peredur* yn cynnig enghreifftiau o'r gytsain o flaen <n> ac nid yw ond prin o flaen <ó> ac <u>, sef yn <cóbyl, kóymp, kudygyl, culyon, cussan> 'cwbl, cwyp, cuddygl, culion, cusan'.

¹⁷ Argraff D.S Thomson (1961: 44) ac R.L. Thomson (1957: xxix) oedd bod Llaw D yn ffafrio <k> o flaen <e, i, y>, ond <c> o flaen y llafariad eraill wrth gopio *Branwen a Pwyll*; dengys yr ystadegau uchod mai <k> a arferid amlaf o flaen <a> gan yr un ysgrifydd wrth gopio *Peredur*. Dadlennir gwahaniaeth pellach yn y Llyfr Gwyn gan ddata Watkin (1958: cvii) ar gyfer *Ystoria Bown de Hamtwn*, a ysgrifennwyd gan Law C: tebyg yw'r duedd ym mhob cyd-destun i eiddo *Peredur* ac eithrio o flaen <a>, pryd nad oes dal ai <c> (111 enghraifft) ynteu <k> (110 dangosyn) a ddewisir.

Arfer a dyfodd yng nghyfnod Hen Saesneg oedd /k/ ⇒ <k> o flaen <a, e, i, y>, a hynny am resymau ymarferol, sef er mwyn gwahaniaethu rhwng /k/ ⇒ <k> a /tʃ/ ⇒ <c> (Vallins 1965: 29-33). Rhaid mai ymwybod â'r traddodiad orgraffyddol hwnnw – ond nid, efallai, lawn ddeall ei arwyddocâd na'r sbardun ffonolegol iddo, na chodasai yn y Gymraeg – a gyflyrodd yr un nodwedd yn ieithwedd Llaw D.¹⁸ Hynny yw, i'r Cymro nid oedd traddodiad graffoffonemig y Sais yn ddim ond arfer graffemig. Yr ymhlygiad yw bod perthynas rhwng hynny a hyfforddi'r ysgrifydd neu rywun yn yr un olyniaeth ag ef.¹⁹

2.4 /g/ a /ŋ/

Defnydd cyfyngedig sydd i <ng> yn *Peredur*. Dim ond yn <dienghy> 'dihengi' y mae'n debyg mai cynrychioli /ŋ/ y mae: /ŋg/ (neu efallai /ŋg/ mewn ynganiad gofalus) a gyfleir ganddi fel arall, a hynny yn y chwe gair <angerd, dangos, engiryaólch[ól]eról, melyngoch, pengrych, teyrnget>. Fel y dengys <aglot, kyghor, róg> 'anghloed, cyngor, rhwng', <g> sy'n cyfleu /ŋ/ yn *Peredur* ac y mae'r didoli nodweddiadol hwn rhwng /ŋg/ ⇒ <ng>, a /ŋ/ ⇒ <g> yn awgrymu mai /ŋg/ a oedd yn <ysbidinongyl>.

O'n persbectif diweddar ni, nodwedd hynafol yw /ŋ/ ⇒ <g>. Mae'n bosibl mai felly yr oedd yng nghyfnod ysgrifennu'r Llyfr Gwyn hefyd oherwydd nid <g> ond <ng> sydd mewn ffurfiau fel <anglot, kynghor> 'anghloed, cyngor' a <rwng> 'rhwng' yn fersiwn Peniarth 14 o *Peredur*, a ysgrifennwyd ryw hanner canrif ynghynt na'r Llyfr Gwyn. Ac ysgrifydd P14 eisoes wedi mabwysiadu <ng>, mae'n amlwg nad cyd-amrywio'n syml ag amser a wnâi cyfleu /ŋ/ ag <g>.²⁰

Ystyriaeth ganolog o safbwynt cyd-destunoli /ŋ/ ⇒ <g> yw nad yw Llaw D heb ddefnyddio <ng>. Yn hytrach, fel y gwelwyd, <ng> yw ei norm ar

¹⁸ Yr unig ddatblygiad Cymraeg a allai fod wedi ysgogi mabwysiadu'r confensiwn Seisnig yw taflodi [k] yn [c] o flaen llafariad blaen. Yn erbyn y posibilrwydd mai hynny a welir yn orgraff y cyfnod canol, fodd bynnag, rhaid nodi nad yw clust y llygwr yn y cyfnod diweddar fel arfer yn adnabod [c] oni ddaw o flaen [a, ε] neu [e]: cyffredin gweld cynrychioli ynganiadau tafodieithol fel [caos, cefil] â <ciaws, cieffyl>, eithr ni welais erioed ddynodi [ci] â <ci>.

¹⁹ Gwyddai copïwyr P14 a P7 hwythau y gallai <c> a <k> gynrychioli /k-/ eithr nid oeddent hwy mor gaeth i batrwm penodol. Yn hytrach, defnyddient <k> yn helaeth mewn cyd-destunau an-Seisnig, e.e. o flaen <o> ni cheir ond 48% o <c> yn P7 a 38% yn P14. Ond dim ond <co-> sydd yn llawysgrif gydamserol *Historia Gruffud vab Kenan* (Evans 1977: ccxciii), sydd hefyd yn tarddu o'r Gogledd. Fe'n rhybuddir, felly, fod angen cryn ddadansoddi pellach cyn y gellir gobeithio cael gwerthfawrogi holl arwyddocâd yr amrywiol haenau yng nghyfnod hanes yr orgraff.

²⁰ Gan nad yw'r enghreifftiau o /ŋ/ yn niferus yn P14 dichon nad oedd ei hysgrifydd hithau'n ddiwyro. Rhaid wrth ddadansoddiad manwl o destunau eraill P14 cyn dirnad hynny.

gyfleu /ŋ/. Un ysgogiad posibl dros ei sillafu ceidwadol wrth gyfleu /ŋ/, felly, oedd ei awydd i wahaniaethu rhwng /ŋg/ (⇒ <ng>), a /ŋ/ (⇒ <g>). Wrth wneud hynny ymwrthododd â'r arfer a amlygir mewn testunau fel Peniarth 14, sef /ŋ/ ⇒ <ng>.

Os cysondeb orgraffyddol oedd y canlyniad i'r strategaeth hon gan Law D, y mae'n bosibl nad anelu at hynny a'i sbardunodd. Yn hytrach, gallai fod yma dystiolaeth bellach am ddylanwad allanol ar ieithwedd testun P4. Oherwydd wrth neilltuo <ng> i gyfleu dim ond /ŋg/, y mae Llaw D yn arfer un o nodweddion orgraff Saesneg ei gyfnod.²¹ Y mae'n bosibl, felly, fod y traddodiad Seisnig a adlewyrchir yn ei ddefnydd o <k> (2.3) yn cwmpasu <ng> hefyd a'i fod wedi ei hyfforddi mor drwyadl yng nghonfensiynau orgraffyddol y Saesneg nes iddo ymwrthod ag <ng> ⇒ /ŋ/ ei gyd-Gymry, a chymhwyso <ng> ⇒ /ŋg/ y Sais at y Gymraeg. Bydd yn rhaid wrth waith pellach cyn gallu llawn gyd-destunoli'r nodwedd hon ond ni waeth am yr union sbardun, y canlyniad yw bod gan Law D orgraff gyson wrth gyfleu /ŋ/ (sef <g>) ac /ŋg/ (sef <ng>).²²

2.5 Y ffrwydrolion mewnol a diweddol: Gwrthdaro systemau

Un o nodweddion y system orgraffyddol ddelfrydol yw bod cyfatebiaeth gyson a diamwys rhwng pob un o'i graffemau a'r ffonemau cyfatebol: ar wahân i gynrychioli /ʃ/ a'r ddau fodd o gyfleu /f/ (sef ag <ff> a <ph>), daw graffemau'r cyfnod diweddar yn agos iawn at wireddu'r ddelfryd hon. Nid felly yn y cyfnod canol: y pryd hynny yr oeddid yn dal i ymgodymu â chyfleu ffonemau nad oeddent yn hynodi Lladin clasurol ac nad oedd y Gymraeg o'r herwydd wedi etifeddu graffemau nodweddiadol ieithoedd Ewrop ar eu cyfer. O ran y cytseiniaid, /ð/ a /ŋ/ yw ffocws rhai o'r prif anawsterau yn y Llyfr Gwyn oherwydd yr oedd i'r modd y'u dynodid hwy ymhlygiadau i fannau eraill yn y system: cynrychioli /ð/ yn rhyngweithio â chyfleu /d/, a hynny'n effeithio ar ddynodi /t/; a chyfleu /ŋ/ yn cael ei gymhlethu gan ysgrifennu /g/, a effeithiai yn ei dro ar gynrychioli /k/.

Nid oedd unrhyw gymhlethdodau o ran y ffrwydrolion di-lais ohewydd ni cheir /p/ na /k/ ddiweddol ac /at/ ⇒ <at> 'at' ac /it, it/ ⇒ <it, itt, yt> 'it' yw'r unig ffurfiau sicr sy'n diweddu â /t/.

Yr oedd Llaw D yn dra chyson wrth ddynodi'r ffrwydrolion lleisiol diweddol: ei normau clir yw /b/ ⇒ , /d/ ⇒ <ð>, a /g/ ⇒ <c>:

²¹ Nid oedd /ŋ/ eto'n ffonem yn y Saesneg: nid tan ddiwedd y cyfnod canol y dechreuwyd symleiddio [-ŋg] y Saesneg yn [-ŋ] (Barber 1976: 314-5).

²² Cymharol brin yw parau lleiafaint tebyg sy'n dibynnu ar gyferbynnu /g/ ac /ŋ/; ffurfiau posibl yw <ig, ing, llog, llong, rheg, rheng> eithr nid oes enghreifftiau o'r fath yn *Peredur*.

Cynrychioli'r ffrwydrolion lleisiol diweddol (%)

	/b/	/d/	/g/
	99.00	<d> 0.76 ²³	<g> 0.11
<p>	1.00	<t> 98.24	<c> 99.89
N	301	1049	940

Nid oes ond tair enghraifft o <pop> 'pob' yn tarfu ar reoleidd-dra /b/ ⇒ , ac un enghraifft o <ag> 'ag' yn amharu ar gysondeb /g/ ⇒ <c>.²⁴ Ymddangosiadol fwy niferus, ond prin yng nghyd-destun y nifer gymharol o enghreifftiau o /d/ ddiweddol, yw'r eithriadau lle y ceir /d/ ⇒ <d>. At ei gilydd, ymddengys mai ar hap y daw'r rhain yn y testun, eithr y mae clwm bach awgrymog ohonynt tua'r dechrau (ll.5, 14, 15), a allai ddeillio o gopio mwy gofalus o gynsail a arddelai /d/ ⇒ <d>:

GAIR	LLINELL	GAIR	LLINELL
nyd	5	nyd	499
diwarnabŵd	14	llygad	712
gŵeled	15	maccŵyeid	748
dahed	344	dywabŵd	1058

Byddai gwerth llafar yr un mor sicr yng nghanol gair ag mewn safleoedd eraill: ⇐ /b/ yw'r unig bosibilrwydd. Byddai <g> a <d> yn yr un safle yn amwys oherwydd yng nghanol gair ceid <g> ⇐ /g, ŋ/, a <d> ⇐ /d, ð/ fel rheol,²⁵ e.e.

<agel> 'angel'	<agos> 'agos'
<brodyr> 'brodyr'	<ymladeu> 'ymladdau'

Nodwedd a allai fod yn arwyddocaol o ran amwysedd <d> fewnol mewn set gaeedig o eiriau yw y gallai ei dehongli ddibynnu ar darddle'r darlennydd: /d/ i'r gogleddwr, ond /ð/ i'r deheuwr (Thomas 1995). Enghreifftiau yn *Peredur* yw:

<adnabot, adnabu> 'adnabod, adnabu'
<chwedyl, chwedlydyaeth> 'chwedl, chwedlyddiaeth'

Yn hytrach na bod yn broblem mewn geiriau fel yr uchod, gallai dau werth llafar <d> fewnol fod yn gymorth wrth sefydlu orgraff genedlaethol: yn ei

²³ Er nad yw'n sicr ai /t/ ynteu /d/ oedd eu cytsain ddiweddol, cynhwysir yma y ffurfiau berfol Amherffaith U2 sy'n diweddu yn <ut> (cf. Evans 1970: 121, §13 (a) N), a'r arddodiaid rhediedig U2. Ni fyddai hepgor y rhain o'r cyfanswm yn amharu ar bendantrwydd y duedd gyffredinol.

²⁴ Mae'r cyd-destun yn awgrymu y gallai ymgais i osgoi amwysedd fod wedi sbarduno defnyddio <ag>: *y gyrchu o'r marcha c̄ ef yn llitya c̄ ac ag arlllost y way *r ǵ ysc ǵd a myn ǵyl drychaf la *arna *dyrna ǵ ma ǵ dolurus* (ll.139). Er hynny ni ddefnyddiwyd yr un strategaeth mewn cyd-destun tebyg yn ddiweddarach: *delis ef gedymdeithas a g *alchmei ac ac owein vab vryen* (ll.664).

²⁵ Enghreifftir yr amwysedd a allai fod i <g> gan <engwedi>, ffurf a gynhyrchodd Hywel Fychan wrth gamddiweddaru orgraff <egwedi> 'egweddi', enw a oedd, gellir tybied, yn anghyfarwydd iddo (Thomas 1993: 42, N1).

hamwysedd, yr oedd <d> fewnol mewn geiriau fel <chwedyl> yn dafodieithol niwtral oherwydd – a bwrw nad oedd stigma gymdeithasol i /d/ neu /ð/ mewn geiriau o'r fath – fe ganiatâi ryddid i'r darllenydd ynganu yn ôl norm ei ranbarth.

Byddai'n rhaid aros tan yr 16g cyn mynd i'r afael â phroblem /ð/ ar lefel genedlaethol, eithr nid oedd <dd> yn gwbl ddieithr yn y cyfnod canol (Jones 1894: xxii, Watkin 1958: cviii).²⁶ Annodweddiadol, felly, ond nid unigryw yw'r ddwy enghraifft o <dd> ⇐ /ð/ yn *Peredur*: <trôyddaô> 'trwyddo' (ll. 312) a <meddic> 'meddyg' (ll. 467).²⁷

Mwy amrywiol yw'r modd y cyfleid /t/ fewnol gan Law D, sef â <t> neu <tt>, cynrychioliadau a allai gystadlu â'i gilydd; cf.

FFURF YN <-t->	N	DYBLEDAU <t> <tt>	FFURF YN <-tt->	N		
<etiued>	1	<bôyta>	10	3	<attaf>	2
<etwa>	1	<katôyf>	1	1	<attek>	3
<gôastatau>	1	<llety>	8	1	<dywetto>	2
<meitin>	2				<itti>	21
<putein>	1				<pyscotta>	1

Y mae'r niferoedd o eiriau sy'n cynnwys /k/ fewnol yn llai, ac ar wahân i <hacraf> 'hacraf' a thair enghraifft of <ck> yn <mackôy> 'macwy', <cc> sy'n ei chynrychioli:

<kyccir>	1	<maccôyeid>	1	<teccaf>	5
<dryccet>	2	<maccôyeit>	2	<teccet>	2
<gôreicca>	3	<racco>	13		
<maccôy>	3	<tebyccaf>	1		

Ychydig hefyd yw'r enghreifftiau o /p/ fewnol, ond ar wahân i un enghraifft o <gôyppych> 'gwypych', ac yn wahanol i /t/ a k/ fewnol, y graffem syml a ffeffir:

<kapan>	1	<gôypôn>	3	<gôypei>	1
<gôypôyf>	1	<gôyput>	2		

Y normau graffemig ar gyfer cyfleu'r ffrwydrolion yn fewnol, felly, yw:

/p/ ⇒ <p>	/t/ ⇒ <tt>	/k/ ⇒ <cc>
/b/ ⇒ 	/d/ ⇒ <d>	/g/ ⇒ <g>

Yn erbyn y gefnlen hon y mae dehongli'r enghreifftiau annisgwyl o <c> a <tt> fewnol. Mewn setiau penodol o eiriau y daw'r rhain, sydd fel pe baent yn arddangos dileisio ffrwydrolion am fod ynddynt <c> yn hytrach nag <g>:

²⁶ Ceir enghreifftiau o /ð/ ⇒ <dd> yn *Ystoria Bown de Hamtwn* y Llyfr Gwyn (Llaw C), BM Add 14912 (o droad y 14g a'r 15g, Huws 1993: 21, Watkin 1958: cviii) a chan Ancr Llanddewibrefi (Jones & Rhys 1894: xv), sef Llaw B y Llyfr Gwyn. At hynny defnyddid <ð> gan rai ysgrifwyr. O ran y Gymraeg y mae'r <th> yn <kertha> 'cerdda' (ll. 147) yn hynod – er bod enghreifftiau tebyg gan Law C ac yn Llyfr Du'r Waun (Watkin 1958: cviii) – ac yn ein hatgoffa am y Saesneg, y gallai <th> ddynodi /ð/ yn ei horgraff hi.

²⁷ Cynrychioli /ðd/ y mae'r <dd> yn <meddaô> 'meddwod' (ll.695).

<arbenhicrodyd>	<croclith>	<dicofeint>
<drycyruerth>	<ffenedicvalch>	<gŕenŕyniclym>
<gŕeicda>	<llitiaŕcdrut>	<marchaŕcford>
<racdaŕ>		

a <t> yn hytrach na <d>:

<atolŕyn>	<atuer>	<ketymdraith>
<kyteisted>	<ditramgŕyd>	<dylyetus>
<enbytrŕyd>	<eneituadeu>	<escutlym>
<etlym>	<gataf>	<gŕastatualch>
<lletrith>	<llityaŕc>	<oetran>
<petwar>	<petweryd>	<pyscotlym>
<rytlyt>	<tyghetuen>	<vnlllygeityaŕc>

Gweld ffurfiau o'r fath yn amlygu 'calediad' a wnaeth Evans (1970: 13) ac nid yw'n amhosibl mai hynny a geir mewn rhai achosion. Ond prin mai dileisio sydd ym mhob un. Mewn sillafau gobennol neu rhwng geiriau y disgwylir cael dileisio, eithr yn y rhagoben y daw'r nodwedd mewn ffurfiau fel <atolŕyn, ketymdraith, dicofeint, drycyruerth> a <ditramgŕyd>.

Ail nodwedd – ac un sy'n gyffredin i bron pob un o'r enghreifftiau uchod – yw bod yr <c> a'r <t> yn cyd-ddigwydd â ffin forffemig: ar ddiwedd morffem fel rheol, fel yn <rac+daŕ, escut+lym> a <ryt+lyt>, ond weithiau ar ei dechrau, fel yn <di+tramgŕyd>.²⁸

Yn y cyd-destun hwn y mae i'r mynych enghreifftiau yn *Peredur* o beidio â dangos y treigladd meddal ddiorddeb arbennig, e.e.

o tŕneimeint (ll. 2)	yn tebic (ll. 97)
y peis hayarn hon (ll. 152)	gŕeic wineu telediŕ (ll. 259)
dy tauaŕt (ll. 482)	yn tragwydaŕl (ll. 541)
o pop parth (ll. 622)	Duŕ a talho it (ll. 783)
tydi a tynho dy penn ymdraith (ll. 879)	
keffyl brychwelŕ yscyrnic kryfaf a tebygei a gymerth (ll. 45)	

Yn wahanol i setiau <croclith> ac <atuer> uchod, ac i dreiglo Goddrych a Gwrthrych (2.12), nid oes amheuaeth am y treiglo yn y cyd-destunau uchod: nodwedd ar yr iaith ers ei chyfnodau cynharaf yw bod y gwahanol sbardunau dan sylw yn cyflyru'r cyfnewid. Nid adlewyrchu newid ar waith yn yr iaith lafar, felly, y mae'r enghreifftiau hyn o beidio â dangos treigladau. Yn hytrach, yr hyn sydd yma yw dangoseb o ddiffyg sefydlogrwydd yn un arall o sustemau'r iaith, un a seiliwyd ar y llafar ond nad rhaid ei bod yn ddibynnol arno, sef yr orgraff.

²⁸ Eithriad ymddangosiadol – ac un nad yw ei fewnol yn ei gymhwyso i fod ymhlith y ffurfiau uchod yw <ŕyneberth>. Ond hwn hefyd yw'r unig air cyfansawdd yn y testun y ceir ar ddiwedd ei elfen gyntaf ac fel y gwelsom uchod, y mae /b/ yn eithriadol ymhlith ffirwydrolion *Peredur* am fod wedi ymsefydlu ar ei chyfer bron yn ddiwahân.

Fel y gwelwyd, nid oedd y modd y cyfleid /d, g/ (ac i raddau llai /b/) eto wedi ymsefydlogi pan ddeuai'r ffonemau hynny ar ddiwedd geiriau. Neges y ffrwydrolen fewnol mewn olyniad fel <dy tauaó< – ac fe ddichon hefyd mewn geiriau fel <croclith> ac <pyscotlyn> – yw nad oedd sefydlogrwydd ychwaith yn y modd y cyfleid y ffrwydrolion lleisiol pan fyddent yn elfennau ffiniol mewn ymadroddion ffonolegol a geiriau cyfansawdd. Yn wir, o gofio am amwysedd <t> a <d>, byddai pwysau o blaid eu cadw'n 'ddidreigladd' mewn rhai cyd-destunau oherwydd gallai gwneud hynny fod yn fodd i arbed amwysedd. Y mae'n drawiadol, er enghraifft, na ddangosir y treigladd meddal i <teulu> (megis yn *lla ěr o teulu arthur* (ll. 961)), mewn cynifer â deng enghraifft. Y canlyniad – a'r ysgogiad, mae'n siŵr – yw ei gwneud yn eglur mai at yr osgordd y cyfeirir, ac nid at ddau lu (sef <deulu>). Yn yr un modd, pe na bai am <t> ddechreuol y ferf, gellid tybied nad *tal* ond *dal* yw'r ferf yn *Du *a talho it* (sy'n digwydd bum gwaith). Gan mai elfennau yng nghanol ymadroddion ffonolegol yw'r holl enghreifftiau uchod o beidio â dynodi treiglo, gallai fod rhyngweithio rhwng y sistem hon a'r gofodi amrywiol rhwng elfennau yn y cyd-destunau hynny.

Os nad oedd yr anghysonderau uchod yn broblem ymarferol, o safbwynt ieithyddol gellid disgwyl iddynt gynhyrchu cryn bwysau i reoleiddio'r sistem fel na fyddai ond un graffem yn cynrychioli un ffonem. Ond cyn neilltuo <d> ac <g> i ddynodi dim ond ffrwydrolion byddai'n rhaid wrth drefn arall i gyfleu /ð/ a /ŋ/, cyfnewid a gymhlethai ddynodi /ŋ, ŋg/ a /ðd/.

2.6 Dynodi'r Treigladd Trwynol: Esblygiad confensiynau

Gan nad oedd ysgrifwyr yr oesoedd canol wedi datblygu dull diamwys o ddynodi'r treigladd trwynol pan ddigwyddai rhwng geiriau (Watkins 1970) nid yw'r amrediad o gynrychioliadau yn *Peredur* yn eithriadol.²⁹

Nid oes unrhyw gliwiau am dreiglo /t/ a /d/ yn drwynol:

yn tal y kudygyl	yn diben y coet	yn dyffryn yr auon	
vyn tat	vyn tebic	vyn dŷn	vyn dyuot

Yng nghyd-destun y set nesaf o olyniadau isod nid oes dim sy'n hynod ynglŷn â'r enghreifftiau hyn: yr un yw eu patrwm cyffredinol, sef bod cytsain ddiweddol y sbardun yn cytuno o ran man cynanu ag eiddo ffrwydrolen ddechreuol yr enw dilynol.

²⁹ Yn unol â'r duedd gyffredinol a ddangosir gan Watkins (1970), mae Llaw D yn cyson ddynodi'r treigladd ar ôl y rhagddodiad <an->, e.e. <amharch, agherdet, anigryf> 'amharch, angherdded, annigrif'. Yn ogystal â'r amrywio yn dynodi'r treigladd trwynol, gallai dybledau fel <yhell, ympell> adlewyrchu camau yng ngeiredd *ymhell*.

Amlygir dau gam datblygaethol i ddynodi'r treigladd trwynol i /p, b, k, g/:³⁰

- i. cymathu man cynanu cytsain ddiweddol y sbardun at eiddo'r gytsain ddilynol: <yn> ⇒ <yg> /əŋ/, neu <ym> /əm/ (byddai <g> yn amwys yn y cyd-destun hwn oherwydd gallai ddynodi /g/ neu /ŋ/):³¹

/p/	ym perued	ym plith	ympebyll	ympell
	vym porthaŵr			
/b/	vym brenhinyaeth			
/k/	yg kaer	yg kylch	ygkaer	ygkastell
	vyg cret	vyg kyuoeth	vygkywirdeb	
/g/	yggouod	yggŷyd	vyg gŵreic	vyg gorderchu

- ii. /p, k/

gwanhau cytsain ddechreuol ddi-lais yr ail elfen: <k, p> ⇒ <h>:

/p/	ymhell	ymhen
/k/	yghanaŵl	ygheuynt

/b, g/

ymdoddi cytsain ddiweddol y sbardun a chytsain ddechreuol yr enw:³²

/b/	ymlaen	ymon	ymron
	vy mot	vy maryf	
/g/	ygwylt	vyg was	vy gofit

Yn sgîl amwysedd <g> (⇐ /g, ŋ/), dim ond y ffurfiau yn <p> neu sy'n dangos yn glir ben draw'r datblygiad orgraffyddol.³³

Yng nghyd-destun y ffurfiau uchod y mae <ygyt> yn teilyngu sylw arbennig oherwydd er mai /ən/ + /ki:d/ yw'r elfennau, nid /əŋ'hi:d/ ond /ə'ŋi:d/ yw'r ynganiad ymhlygedig. Y mae'r <yg kyt> disgwylidig wedi ei gofnodi – fe'i ceir, er enghraifft, yn y *Pedeir Keinc* (Evans 1970: 224) – eithr y mae cyffredinedd <ygyt> yn awgrymu nad oedd /h/ yn arferol yn yr ynganiad.

³⁰ Nid ymddengys bod y ffurfiau'n ymddosbarthu mewn modd arwyddocaol yn y testun.

³¹ Gall cytsain ddiweddol y rhagenw blaen newid hefyd o flaen /m/ yn <vym march, vym merch> 'fy march, fy merch' a gellir ei hepgor, e.e. yn <vy mam, vy march>. Nis ceir o flaen cytseiniaid eraill, e.e. <vy chŵaer, vy llŵ> 'fy chwaer, fy llw' nac o flaen llafariaid, e.e. <vy arglŷyd, vy ŷyneb> 'fy arglwydd, fy wyneb'. Sylwer, yn y cyd-destun hwn, ar y graddfeydd o ffurfioldeb a ymhlygir gan y tri dyfyniad canlynol, sy'n cynyddol ddatffurfioli drwy seingolli o /və'mam/ i /ə'mam/ ac yna /mam/ wrth i'r testun fynd rhagddo, ac a allai, felly, fod yn waddol i ymlacio'r ysgrifydd wrth iddo gynefino â'i dasg:

'uy mam' heb ef 'peth ryued a weleis i yghot' . (ll. 19-20)

'Y mam' heb ef 'beth yŵ y rei racco' . (ll. 29-30)

'Mam' heb ef 'nyt egylyon y rei racco namyn marchogyon' . (ll. 41-2)

Ceir enghreifftiau mwy niferus tebyg gan Law C (Watkin 1958: cxx).

³² Cf. ymhellach <ymynwes> (ll. 548), lle y mae'r ddwy /m/ wedi ymdoddi.

³³ Ni cheir yr un enghraifft debyg i <vymphen, vynthat, ygcharchar> 'fy mhen, fy nhad, yng ngharchar' Llaw C (Watkin 1958: cxvi).

2.7 /f, v, y, u, w/

Y mae'r <f> ddiwedddol yn <ef, dywedaf, duhaf> 'ef, dywedaf, duaf' yn nodweddiadol o dros gant o eiriau a all ddiweddu yn /v/ yn *Peredur*.³⁴ Yn yr un modd, y mae'r <u> ⇐ /y/ yn <bu, adnabu, kyscu> 'bu, adnabu, cysgu' yn nodweddiadol o'r cannoedd geiriau a all ddiweddu yn /y/. Ond os yw dynodi /y/ ac /f/ ddiwedddol yn ddiwyro yn *Peredur*, pan fydd yr un ffonemau'n digwydd mewn safleoedd eraill yn y gair gall eu cynrychioliadau graffemig orymylu nid yn unig â'i gilydd ond hefyd ag eiddo ffonemau eraill. Mae'r Tabl isod yn dangos cyd-berthynas y saith graffem berthnasol mewn detholiad o gyd-destunau:³⁵

CYMRAEG	PEREDUR							N
DIWEDDAR	<ph>	<ff>	<f>	<u>	<v>	<w>	<6>	
<ph->	94.0	4.0	2.0					100
<-ff>		83.3	16.7					12
<ff->		75.7	24.3					37
<f->			0.9	30.0	68.8	0.4		574
<u->				24.4	75.6			127
<w->⇒/w/ ³⁶						97.2	2.8	388
<w->⇒/u/						0.5	99.5	202

Fel y gwelir, er bod cryn orymylu rhwng y cynrychioliadau, y mae tuedd bendant iawn i ffafrio graffem benodol wrth gyfleu pob un. Fe geir, felly, elfen o hylifedd yn sustem orgraff Llaw D, eithr yn hytrach nag amrywio digyfeiriad, y mae yma gryn fesur o reoleidd-dra. Bydd yn rhaid wrth astudiaeth drylwyr ar ddatblygiad yr orgraff cyn gallu cyd-destunoli'r amrywiadau a llawn ddeall yr hyn a'u hysgogodd.

Y mae'r ffurfiau canlynol yn enghreifftio cynrychioliadau nodweddiadol *Peredur* ar gyfer y cyd-destunau uchod:

³⁴ Tystio bod /v/ yr ansoddair wedi ei chymathu at /f/ yr enw y mae'r <ff> yn <priff fford>, rhagflas o <priffordd> y cyfnod diweddar, sy'n dangos ymdoddi'r ddwy <ff>.

Ffenomen wahanol a adlewyrchir gan yr <ff> yn <keffyn> 'cefn', fel yn <eff, Effra6c> 'ef, Efrog' yn J111 a <seff> 'sef' yn P7. Tystiolaeth sydd yma, fe ymddengys, am drosi rhwng sustemau orgraffyddol: nid cynrychioli /-v/ ond cyfleu /-f/ a symbylodd y ffurfiau hyn. Yng nghyfnod llunio'r llawysgrifau hyn yr oedd <ff> yn ymsefydlu'n norm ar gyfer /-f/. Rhan anochel o'r broses honno fyddai bod ysgrifwyr yn bwriadol droi <-f> eu cynseiliau yn <-ff> yn eu copïau. Hawdd, felly, y gallai <eff> 'ef' a <seff> 'sef' fod yn gynnyrch gorgywiro, tystiolaeth bod diweddarau ar droed. Cynnig Charles-Edwards a Williams (1970) – na dderbyniaf fi – yw mai cyfnewid arall, sef dileisio /v/, sydd yn P4 a J111 <diffllannu, diffllann6ys> 'diflannu, diflannodd'. (<divlannawd, divlannasant> sydd yn y P7 gogleddol a chynharach ac mae <diflannu> yn amrywiad yn P4).

³⁵ Gorestyn y drafodaeth bresennol fyddai ystyried pob cyd-destun yn y gair.

³⁶ Ni chynhwyswyd y ffurf eithriadol – /w/ ⇒ <u> (<guedy> 'wedi') yn yr ystadegau.

CYMRAEG	
DIWEDDAR	PEREDUR
a phen	<a phenn>
ffon	<ffon>
caiff	<keiff>
felly	<velly>
unben	<vnben>
bu	<bu>
yn waedlyd	<yn waedlyt>
wrth	<ŵrth>

O blith yr uchod, cynrychioli /v/ ddechreuol yw'r mwyaf amrywiol: er mai <v> yw'r norm (69%), y mae hefyd 30% o <u>.³⁷ Cyfleu (v-) ar lefel facro-newidynnol gyffredinol y mae'r canrannau hyn eithr o ystyried y data ar lefel fanach fe welir bod y canrannau crynhoawl hyn yn cuddio tueddiadau penodol a bod amlygrwydd <v> ddechreuol (yn hytrach nag <u>) yn dibynnu ar yr elfen ddilynol:³⁸

CYD-DESTUN	%	N
#__a	91.20	125
#__r	86.96	23
#__o	82.02	89
#__i	80.00	10
#__y	76.02	171
#__l	66.67	9
#__e	66.10	59
#__ŵ	10.53	38
#__u	0.00	42

Rhaid wrth gronfa ddata helaethach lawer cyn gallu dehongli'r ymbatrymu hwn yng nghyd-destun y cyfnod eithr y mae'n bosibl mai un o'r ffenomenâu yma yw gwedd ar yr elfen bersonol yn llythrennu ysgrifwyr unigol. Ymhelaethir ar arwyddocâd <ŵ> ac <w> yn 2.10.

³⁷ Nid yw'r pum enghraifft o <f> yn ddim ond 0.87% o'r cyfan At hynny, ceir dwy enghraifft o /v/ ⇒ <w>, yn yr olyniadau <o wilŵraeth> 'o filwriaeth' ac <arwein y warch> 'arwain ei farch'. Yn hytrach na gweld y rhain yn enghreifftiau o 'w=f' a 'hen orgraff w=f' fel y gwna Goetinck (1976: 73, N.8.9 ; 94, N.36.24), ymddengys i mi mai enghreifftiau o amryfusedd ydynt (2.10). Os felly, y mae'n bosibl nad <w> ond <u> neu <v> a gynrychiolai /v/ (a hefyd /u/ neu /w/) yng nghynsail Llaw D.

Ag <f> y cynrychiolir /v/ ddiwedddol gan Law D; o safbwynt y darllynydd diweddar nid oes i hynny unrhyw hynodrydd arbennig.

³⁸ Mae cymharu'r nodwedd yn *Peredur* ac *Ystoria Bown de Hamtwn* (Llaw C, data Watkin 1958: cviii) yn amlygu sawl gwahaniaeth rhwng y ddau destun. Yr un mwyaf trawiadol yw amlygrwydd <v> o flaen <ŵ>: 10.53% yn *Peredur* ond 82.35% yn YBH. <u> a ddewisir gan y naill ysgrifydd a'r llall o flaen <u>.

2.8 (j)

Rheol Llaw D yw mai'r cyd-destun sy'n llywio'r modd y cyfleir /j/: <J> yn briflythyren, <i> yn llythyren fach ar ddechrau gair, ac <y> yn fewnol; cf.

Dechreuol, e.e. <iechyt, ieith, ieuanc> 'iechyd, iaith, ieuanc'

Mewnol, e.e. <aryant, glinyeu, ynyal. 'arian, gliniau, anial'

<ynialóch> (dybled ag <ynylaóch>, a geir deirgwaith) yw'r unig eithriad.

Gan fod <i> ac <y> hefyd yn cynrychioli /i, i/ ac /ə/, y mae'n bosibl na fyddai union ffurf ffonolegol gair ysgrifenedig sy'n cynnwys /j/ yn amlwg ond i'r sawl a chanddo gryn wybodaeth am deithi ffonoleg yr iaith.³⁹

Nodweddion ac iddynt arwyddocâd ynganiadol

2.9 <n, nn>

Yn orgraff Llaw D bydd <nn> ar ddiwedd gair unsill yn arwyddo bod y llafariad flaenorol yn fyr. Er hynny, fel y dengys y rhestr ganlynol, nid yw <nn> yn nod angenrheidiol yn ei orgraff ar gyfer dynodi llafariad fer yn y cyd-destun hwn. Yn hytrach, ei duedd yw ffafrio <n>, gan adael i'r darlennydd dynnu ar ei wybodaeth o deithi'r iaith er mwyn dehongli olynad a gynrychiolai ddau ynganiad:

FFURF YN <nn>	N	DYBLEDAU <nn>	<n>	FFURF YN <n>	N
ffyn	1	can 'gwyn'	1	dan	6
myn <i>bf</i>	1	gwn <i>bf</i>	2	ffon	3
		hon	1	gan	32
		hwn	7	gwan	5
		hyn	1	gwen	1
		man	2	gŷyn	1
		pen	2	llen	1
				myn <i>ardd</i>	23
				pan	48
				pren	1

Mewn geiriau unsill, felly, y mae orgraff y ffurfiau uchod yn *Peredur* yn tueddu i ymdebygu i eiddo'r cyfnod diweddar. Ond gan nad oedd yr ysgrifydd yn defnyddio acenion i ddynodi hyd llafariad, canlyniad i ddefnyddio un <n> mewn geiriau fel yr uchod yw bod yn rhaid wrth gyd-destun er mwyn gwybod ai, dyweder, y berfenw *gwân* ynteu'r ansoddair *gwan* a gyfleir gan <gwan>.⁴⁰

³⁹ Ffurf amwys yw <dayoni> 'daeoni', a allai gyfleu /daioni, dajoni/ neu /daïoni/.

⁴⁰ Ymddengys mai dynodi llafariad hir acennog yw swyddogaeth y llafariad dybledig yn <coffaaf, kyttuun, ryfuum> 'coffâf, cytûn, bûm': ni cheir ond un llafariad fel arall yn <bum> 'bûm' (ac yn y ffurfiau treigledig <fûm, uum>). Ni allaf dderbyn cynnig Goetinck (1976: 92) am <ryfuum>, sef y gallai fod yma 'hen orgraff', sef <fu> am /v/. Pe na bai am <bum> 'bûm' byddai'r posibilrwydd mai cynrychioli dwy lafariad heb eu cywasgu y mae'r <uu> yn fwy deniadol.

Mwy arwyddocaol, efallai, o ran datblygiad yr iaith lafar, yw'r amrywio rhwng cytseiniaid dwbl a sengl yn y goben. Dim ond <nn> ac <rr> a ddyblir bellach, eithr yn y cyfnod canol gellid dyblu cytseiniaid eraill hefyd. Fel y gwelwyd (2.5), y mae'r graddau y gwnâi Llaw D hynny wrth gynrychioli'r ffrwydrolion di-lais yn amrywio: dyblai'n gyson wrth ddynodi /k/, yn llai aml gyda /t/, ac yn brin iawn wrth ysgrifennu /p/. Yn gwrthgyferbynnu â hynny y mae'n dra chyson wrth ddewis <m> ac <ss> yn y goben i ddynodi /m/ ac /s/, dwy gytsain arall y byddai pob llafariad a'u rhagflaenai yn y safle hwnnw yn fyr.⁴¹ Yn erbyn y gefnlen hon y mae tystiolaeth <nn> ac <n> obennol yn ddatlennol. Oherwydd er bod rhai geiriau – fel <kynnic, ymgynnic, ennill> 'cynnig, ymgynnig, ennill' – yn ddiamrywio ac wedi eu sillafu â'r <nn> etymolegol, y mae eraill y mae eu tarddiad hwythau'n pleidio <nn> yn amrywiol neu'n cynnwys <n>:⁴²

DYBLEDAU	<nn>	<n>	FFURF YN <n>	N
kychwynn-	9	5	amdiffynaf	1
gofynn-	10	2 ⁴³	keinuigenus	1
llannerch	2	3	ranaf	1
mynn-	18	1		
trannoeth	5	14		

Yng nghyd-destun y ffurfiau unsill amrywiol sy'n diweddu ag <nn> ac <n>, y mae'n bosibl nad yw'r ffurfiau gobennol uchod yn <n> yn cynrychioli dim mwy nag amrywio orgraffyddol ar ran Llaw D, neu, efallai, beidio â throsi <ñ> ei gysail yn <nn>. Ond ochr yn ochr â'r cysondeb wrth ysgrifennu <ss> gallent hefyd arwyddo colli hyd yn y goben. O'r safbwynt hwnnw, y mae i <darogannóys> (ll. 531) arwyddocâd arbennig oherwydd y mae'n cynnwys <nn> anetymolegol. Ceir ffurfiau tebyg gan Law C (Watkin 1958: cxii) eithr fel gyda chynifer o nodweddion yn ieithwedd ysgrifydd unigol, rhaid wrth gronfa ddata helaethach cyn cael mynd i'r afael â dehongli'r neges hon.⁴⁴

2.10 <w, 6>

Elfen drawiadol yn sustem orgraffyddol Llaw D yw ei duedd i ddiidoli rhwng /w/ ac /u/ drwy neilltuo <w> ar gyfer y naill ac <6> ar gyfer y llall (2.2, 2.7). Er hynny, nid yw'r sefyllfa'n gwbl anghymhleth. Yn y safle

⁴¹ Yr unig gynrychioliadau annisgwyl yw'r ddwy enghraifft o <yscymmun> yn hytrach nag <yscumun>, a geir unwaith.

⁴² Gan nad yw hyd yn nodwedd ar /ə/ obennol drwy'r rhan fwyaf o'r De, gallai amlygrwydd cymharol /ə/ obennol yn y rhestr hon adlewyrchu colli hyd ar ei hôl hi.

⁴³ Rhannwyd un o'r rhain – <gofy|na6d> 'gofynnodd' (ll. 744) – dros y llinell. Mae <g6y|nach> 'gwynnach' (ll. 312) a <kyt tun|na6d> 'cytunodd' (ll. 962) yn anodd am yr un rheswm.

⁴⁴ Bydd hynny'n cynnwys ystyried ffurfiau fel <genhyf> y gallai eu <nh> ddynodi llafariad fer, ochr yn ochr â ffurfiau fel <brenhin>, lle na ddisgwylir llafariad fer.

diweddol ni fydd /u/ yn cyferbynnu â /w/ mewn Cymraeg Diweddar. Gallai fod yn arwyddocaol, felly, mai yn y safle hwnnw y mae Llaw D ar ei fwyaf cyson: dim ond <ô> sydd ganddo yn y 627 o enghreifftiau o /u/ ddiweddol, ni waeth beth fo cyfluniad y gair,⁴⁵ e.e.

<kinyaô,⁴⁶ llô, galô> ‘cinio, llw, galw’

Cwbl gyson â’r patrwm hwn yw bod Llaw D yn neilltuo <ô> ar gyfer /u/ ddechreuol hefyd. Yn wahanol i’r safle diweddol, fodd bynnag, gellir (o dreiglo /g/ yn feddal) gael /w/ hefyd ar ddechrau geiriau. Dyma wahaniaeth ffonemig a gydnabyddir drwy gyfleu bron pob enghraifft o /w/ ag <w>:⁴⁷

Cydberthynas <ô> ac <w> ddechreuol ag /u/ a /w/ (%)

	<ô>	<w>	N
/u/	99.51	0.49	202
/w/	2.83	97.17	388

Cymharer:

/u/ ⇒ <ô>, e.e. <ôrth, ôyt, ôythnos> ‘wrth, wyt, wythnos’

/w/ ⇒ <w>, e.e. <wed, wely, werin> ‘[g]wedd, [g]weli, [g]werin’

Adleisir y cysondeb hwn gan batrwm tebyg pan fydd /u/ a /w/ yn dilyn /χ/:⁴⁸

Cydberthynas <ô> ac <w> ar ôl <ch> ag /u/ a /w/ (%)

	<chô>	<chw>	N
/xu/	100	0	12
/χw/	14.86	85.14	74

Enghreifftiau o’r normau uchod yw:

/xu/ ⇒ <chô>: <kyrchôys, chônsallt, echôyd> ‘cyrchodd, chwnsallt, echwydd’

/χw/ ⇒ <chw>: <achwanec, kychwyn, chwaer> ‘ychwaneg, cychwyn, chwaer’

Yng nghyd-destun yr ymbatrymu uchod annisgwyl cael mai <ô> sy’n cynrychioli /gu/ a /gw/ bron yn ddi-feth:

Cydberthynas <ô, w> ac <u> ar ôl <g> ag /u/ a /w/ (%)

	<gô>	<gw>	<gu>	N
/gu-/	100	0	0	132
/gw-/	97.75	1.93	0.32	311

Ar ôl <g>, felly, ymddengys fod yr apêl i’r llygad yn drech na’r glust: nid y gwerthoedd llafar ond, y mae’n debyg, ystyriaethau esthetig sy’n llywio’r dewis rhwng <ô> ac <w> yma.

⁴⁵ Dyma dystiolaeth bwysig am ynganu <w> ôl-gytseiniol mewn geiriau lluosill. Ni waeth am reolau’r beirdd (Morris-Jones d.d.: 192), llafariad ydoedd i Law D.

⁴⁶ I Law D, felly, olynadau o ddwy lafariad oedd deuseinaid sy’n diweddu yn <w>.

⁴⁷ Dybledau i sillafiadau ag <ô> yw llawer o’r 11 eithriad ac – er nad yw’n ymddangos bod unrhyw arwyddocâd arbennig i hynny – ffurfiau ar *gwneuthur* yw 7 o’r rhain, e.e.

<weith, ôeith; wnaeth, ônaeth; wneuthur, ôneuthur> ‘gwaith; gwnaeth; gwneuthur’

⁴⁸ Enghraifft a allai amlygu penderfyniad mwy bwriadol i gyfleu /w/ ag <w> yn hytrach nag <ô> yw <ch^wemeib> (Evans 1907: 117.8).

2.11 Cymathu

Fel rheol bydd Llaw D – fel ysgrifwyr eraill yn ei gyfnod (cf. Evans 1970: 2-3) – yn cyfleu /i/ ac /y/ yn unol â'u tarddiad. Mewn cyfnod cyn codeiddio'r iaith yn gaeth, fodd bynnag, byddai cryn ryddid i ffurf lafar ddylanwadu ar ei chynrychiolaeth ysgrifenedig. Y mae'r enghreifftiau canlynol, felly, yn arwyddocaol am eu bod yn tystio am gymathu /i/ ac /i/ at elfennau yn eu cyddestun:

PROSES	ENGHREIFFTIAU
/ig/ → /iɣ/	<llewic> ⁴⁹ 'llewyg' (ll.125) <meddic> 'meddyg' (ll.467)
	<tebic> 'tebyg' (ll.226)
/iŋ/ → /iŋ/	<rygig> 'rhygyng' (ll.983)
/i...i/ → /i...i/	<imi> 'imi' ⁵⁰
	<itti> 'iti'
/i...y/ → /y...y/	<udunt> 'iddynt' (ll.11)
/i...y/ → /y...y/	<tuhun> ⁵¹ 'dy hun' (ll.52)
/i...in/ → /i...in/	<dibin> 'dibyn' (ll.554) <dilin> 'dilyn' (ll.884)
/i...ið/ → /i...ið/	<gilid> 'gilydd' (ll.324) ond 5 enghraifft o <gilyd> ⁵²
/vi/ → /vy/	<gofit> 3 enghraifft, a <gouut> 3 enghraifft

Ceir hefyd enghreifftiau o gymathu ymdoddol, sef cynrychioli dwy sain unfath neu debyg gan un. Amlygu'r elfen lafar yng ngwaith y copïwr y mae ymdoddi /ʃ l/ a'r /r r̥/ yn:

neillað (ll. 1055, 1173) a chyrrn y bob un o rei ereill (ll. 16)

Gellid disgwyl mai <or rei ereill> a fyddai yn y cynsail, ond bod y copïwr, wrth drosglwyddo'r olyniad i'w gof, wedi hepgor y fannod, a ymdoddasai â /r̥/ ddechreuol /r̥ai/ ⇒ <rei> 'rhai'.⁵³

Yn yr un modd, ceir sawl enghraifft o gytsain ddiweddol berf a chytsain ddechreuol rhagenw ategol ddiacen yn ymdoddi, e.e.

U2 a weleisti (ll. 32) dywedesti (ll. 696) kefeisti (ll. 403)

L11 kyghoróni (ll. 327)

L12 gódochi (ll. 451)

⁴⁹ Yn <maró lewic>; yn ll.118 ceir <maró lewyc> heb ddangos cymathu.

⁵⁰ Er mai'r ffurfiau cymathedig yw'r rhai arferol – 20 enghraifft o <imi> a 19 o <itti> – ceir hefyd un enghraifft yr un o <yimi> (ll.136) ac <ytti> (ll.35) a'r rheini – efallai yn arwyddocaol – yn y rhan gyntaf o'r chwedl. Mae'n debyg mai gorgywiro a barodd roi <y> yn <anigryf> 'annigrif' (ll.1070) ac <eirif> 'eirif' (ll.146), er y gallai'r olaf fod yn gynnyrch cymysgu rhwng *eirif* (a allai fod yn anhysbys i'r ysgrifydd) ac *eirf* ⇒ <eirif> (hen luosog i *arf*).

⁵¹ O ran y ffurf U1 ceir <imihun> (ll.1014) ac <ym|yhun> (ll.135) eithr gan fod yr enghraifft hon yn ymestyn dros ddwy linell nid hawdd ei dehongli. Fel y prawf y ffurf L11 <nyhun> yn R 1368.34, nid y rhagenwau blaen ond y rhai annibynnol sydd yn yr olyniadau hyn – egin rhagenwau atblygol.

⁵² Gallai <gylid> 'gilydd' (ll.458) fod yn wall ysgrifol (trawsosod y llafariaid) neu gallai fod yn gynnyrch elfen o ansicrwydd ynglŷn ag union sillafiad yr enw.

⁵³ Y mae Goetinck (1976: 99) am inni weld enghraifft debyg yn *ymdidan a rianed a oruc* (ll.690). Ni welaf fi bod yn rhaid tybied mai rhianedd penodol sydd yma.

O safbwynt synchronig gellir dadansoddi'r ffurfiau uchod yn gyfuniad o ferf + <i>, elfen sydd yn pwysleisio person y ferf ac un sydd yn ffurfiol debyg i'r rhagenw ategol U1, y clymir yntau yn rheolaidd â'r ferf ac ag arddodiaid rhediedig, e.e.

ny thrigyafi (ll. 783)	Ny ōrthneuafi (ll. 1073)	ōyfi (ll. 208)
ohonofi (ll. 407)	ōrthyfi (ll. 529)	

Ceir sawl enghraifft o gymathu ymdoddol hefyd pan fydd y rhagenw blaen U3 <y> ⇐ /i/ yn dilyn yr arddodiad <y>, yr elfen berthynol <y>, neu'r cysylltair <yny> 'oni':

PROSES	ENGHREIFFTIAU
/i i/ → /i/	kadō geifyr oed y uam (ll. 14) nat af y lys (ll. 158) gōnaet pob vn onadunt a allo waethaf y gilyd (ll. 294) Y nos honno mynet y letty (ll. 920) ae uōrō ae lad (ll. 144)
/ə i/ → /i/ neu /ə/	a'r seithuet mab idaō peredur y gelōit (ll. 4-5) yn y diwed y lladaōd (ll. 624) nat yr amharch arnunt y dodit is llaō y teulu (ll. 809) gōn y lle y kaffeī (ll. 957) Nyt yttiō y claōr y lle kyntaf y keueist (ll. 1135)
/əni i/ → /əni/	mi a geissaf ynyalōch ynys prydein ymdanaō yny kaffōyf (ll. 292)

2.12 Y Treigladd Meddal

Gall treiglo'r Goddrych a'r Gwrthrych yn y cyfnod canol ymbatrymu'n wahanol i'r hyn sy'n arferol yng Nghymraeg safonol y cyfnod diweddar (Evans 1970: 17-9, Morgan 1952: 184-200). Dyma bwnc y mae angen ei archwilio'n llawn o'r newydd er mwyn cael deall dynameg y cyfnewidiadau. Nid yw *Peredur* yn cynnig llawer o enghreifftiau eithr gellir nodi'r canlynol, sy'n arwyddo diffyg sefydlogrwydd ar ôl berfau U3:

i. Goddrych

AMSER Y FERF	DIM TREIGLO	TREIGLO
Gorffennol	ef a gyfodes gōr du (ll. 1162)	kigleu gei (ll. 521)
Amherffaith	A their fford a welei peredur (ll. 775)	ny wharyei weisson (ll. 140)

ii. Gwrthrych

AMSER Y FERF	DIM TREIGLO	TREIGLO
Gorffennol	ynteu a ellygaōd gōyr (ll. 1064)	delis ef gedymdeithas (ll. 664)
Amherffaith	ef a ōleī llannerch o vaes (ll. 61)	ef a welei ōr llōyt cloff (ll. 1171)

Os treigladd sangiadol sydd yn *delis ef gedymdeithas*, aelod o garfan arall o ffurfiau amrywiol ydyw (a allai fod yn gysylltiedig ag amser y ferf); cf.

DIM TREIGLO	TREIGLO
hi a rodes idað march (ll. 1083)	nyd oed oet ydað uynet (ll. 5)
dywedir idað kampeu (ll. 721)	aro y genhyfi gyghoreu (ll. 48)
Mae yna colðyn (ll. 1148)	mi a baraf itt varch (ll. 1083)

Bydd yr orgraff yn amwys os bydd y Goddrych neu'r Gwrthrych yn dechrau â /t/ neu /d/ (2.5).

2.13 Nodweddion taleithiol

Rhydd ymbatrymu sawl nodwedd islais deheuol i'r testun. Yr enghraifft amlycaf o hyn yw absenoldeb cynrychiolaeth i /j/ mewn ffurfiau fel <anifeileit, keissaw, meibon> 'anifeiliaid, ceisio, meibion', tystiolaeth yr ychwanegir ychydig at ei phwysau gan ffurfiau deheuol eraill fel <dala> 'dal', <asseu> 'aswy', ac (yn nhermau tafodieithoedd y presennol) <kyhórd> 'cyffwrdd'; ac <arlóyd> 'arglwydd' a <ky-> 'cyn' yn <kybellet> 'cyn belled', <kyebróydet> 'cyn ebrwydded' a <kyteyrneidet> 'cyn deyrneidded' (a adleisir gan ffurfiau de-ddwyreiniol tebyg).

Mae nodweddion taleithiol eraill yn amrywiol ac un o ddi-ddordebau *Peredur* yw bod modd dehongli ymbatrymu nifer o'r ffurfiau hynny yn nhermau trosglwyddo'r testun o'r Gogledd i'r De.⁵⁴ Gan fod y manylion yn gymhleth ac wedi eu trafod mewn man arall (Thomas 2000), ni wneir yma ond nodi bod ymbatrymu rhai o'r nodweddion amrywiol yn ein galluogi i adnabod dwy ran i'r testun (ni ellir nodi'r union fan lle y bu newid):

RHAN	TESTUN	TUEDD DALETIHIOL
I	hyd at oddeutu ll. 466	gogleddol at ei gilydd
II	o oddeutu ll. 469 ymlaen	mwy deheuol

Yr ymhlygiad yw mai testun cyfansawdd yw *Peredur*, ac mai cynnyrch cyfuno dwy ffynhonnell ydyw.

Un o'r nodweddion taleithiol amlwg yw elfen fôn-ffurfiol *gan*, a all fod yn ddeheuol yn <ɣ> ⇐ /t/ neu'n ogleddol yn <th> ⇐ /θ/:

	DEHEUOL	GOGLEDDOL
U3g	gantaw	ganhaw
b		genthi
L13		ganhunt

Mae amrywio tebyg yn hynodi ffurfiau trydydd person prinnach *rhwng*:

	DEHEUOL	GOGLEDDOL
U3b		rygthi
L13	rydunt	rygthunt

⁵⁴ Tybiaf mai deheuol yw <estóg> (ll.76, 96) ac mai gogleddol yw <gostóg> (ll.918).

Dichon, hefyd, mai cynnyrch De a Gogledd yw'r amrywio yn elfen lafarog y bôn i Amser Gorffennol *dyuot* 'dod':⁵⁵

	DEHEUOL	GOGLEDDOL
U1	deuthum	
2		doethost
3	deuth	doeth
L11		
2		doethoch
3		doethant
Amher	deuthpwyt	

Nodwedd ferfol arall a allai fod yn ymbatrymu'n daleithiol yw'r amrywio rhwng <aóð> ac <óys> mewn rhai ffurfiau Gorffennol U3 (2.16).

Amlygir ffurfiau deheuol a gogleddol tebygol hefyd gan ffurf y fannod o flaen /j/. Cytsain yw /j/ ac felly y'i trafodir yn nhafodieithoedd presennol y De, lle y ceir /ə/, sef y ffurf rag-gytseiniol ar y fannod, o'i blaen. Ffurf ddeheuol nodweddiadol, felly, yw /ə jaiθ/ 'y iaith'. Mewn tafodieithoedd gogleddol, fodd bynnag, trafodir /j/ fel pe bai'n llafariad, a defnyddio /ər/, y ffurf raglafarog ar y fannod o'i blaen: /ər jaiθ/ 'yr iaith'.

Nid *iaith* ond <iarll, iarll> ac <iaghór> 'gŵr ifanc' sy'n amlygu amrywio yn ffurf y fannod o flaen /j/ yn *Peredur*. Rhestrir yr enghreifftiau yn Atodiad A ac o'u didoli yn unol â'r toriad ieithyddol mwy cyffredinol yn y testun, fe welir nad yn ddibatrwm y digwydd pob un: bloc o 4 ffurf ogleddol yn cael ei ddilyn gan bump o rai deheuol yn y rhan gyntaf, ond yr ail ran yn ogleddol ac eithrio tair ffurf ddeheuol sydd fel pe baent yn digwydd ar hap tua'r dechrau.

Newidyn yr aeth ei amrywyn gogleddol yn safonol yn gynt nag odid yr un arall yw (chw-), sy'n crynhoi'r amrywio rhwng <chw-> a <wh->. Nid annisgwyl cael mai <chw-> a geir fel rheol yn *Peredur*, mewn ffurfiau fel <chwaer, chware> a <chwedyl> 'chwedl'. Ond y mae hefyd chwe ffurf ddeheuol yn <wh->. Yng nghanol rhediadau o ffurfiau yn <chw-> y daw dwy o'r rhai deheuol, eithr mae pedair yn hynod am eu bod yn dilyn ei gilydd (rhwng llinellau 796 a 953, oddeutu saith colofn yn y Llyfr Gwyn, sef rhwng diwedd colofn 158 a diwedd 166). Tybed ai cynnyrch un sesiwn gopïo yw'r rhain?

Nid hawdd wrth drafod testun unigol yw dosbarthu a dehongli pob enghraifft o amrywio ieithyddol. Y mae *Peredur*, fodd bynnag, yn cynnig enghreifftiau o sawl nodwedd arall yr ymddengys mai adlewyrchu ffurfiau mewn mathau lleol y maent.

⁵⁵ Gogleddol, hefyd, mi dybiaf, yw'r <o> yn <dowch> (ll.825). Dwy ffurf ferfol arall – rhai Pres Dib U3 – a allai adlewyrchu amrywiadau lleol yw <rodo> (ll.356) a <rotho> (ll.985).

Dau arddodiad a gysylltir bellach â'r Gogledd yw /am'dan/ 'am' ac /evo/ 'efo'. Mae tair enghraifft o <ymdan> yn *Peredur*, i gyd yn yr un cyd-destun:

A pheredur ... a wiscað y arueu ymdanað . ac ymdan y varch . (ll. 586-7)

A gŵiscað ymdanað ac ymdan y varch . (ll. 864-5)

Ac arueu rytlyt maðr ymdanað . ac ymdan y varch . (ll. 1163)

Datblygiad ar yr olyniad *ef a* + Ymadrodd Enwol yw /evo/, ac fe geir yr olyniad gwreiddiol yn y testun:

ef a las . ac *ef a*'y chwemeib (ll. 4)

llyma y corr yn dyuot y mywn... *ef a*'e corres (ll. 109-110)

Ac ynteu a death *ef a*'r melinyd (ll. 898)

Ffurf arall y gellir ei chysylltu â'r Gogledd erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg yw <oe> 'i'w'; mae saith enghraifft yn *Peredur* ac un ohonynt yn hynod am ei fod yn cael ei ddilyn hefyd gan <y> gywasgedig sy'n cynrychioli'r arddodiad <y> a'r rhagenw blaen U3 <y> (2.11):

ynteu a ellygað gŵyr am pen peredur o'e dala ac y doddi y myðn geol .

(ll.1065-6)

Yn yr ail hanner y daw'r enghraifft uchod a'r rhai eraill o <oe> (a gynrychiolir yma ag <o'e>):

arthur a rodes y'r gŵr llŵyt a'e nifer y dyffryn o'e gynhal ydanað *ef* (ll. 616-7)

A chymryt canhat a wnaeth peredur . A mynet o'e lety . (ll. 900-1)

tebyccaf oed gantað vot y maccŵy a gyfarfu ac *ef* yn ŵr o'e verch . (ll. 1060-1)

Ac *ef a* doeth drachefyn o'e garchar . (ll. 1086-7)

hitheu a aeth y ofyn chwedleu o'e that (ll. 1088)

doei o'e garchar trachefyn (ll. 1093)

2.14

Nodweddion anffurfiol

Ffurfiâu y gellir eu priodoli i ddylanwad arddulliau anffurfiol (ac y gallai rhai ohonynt fod yn daleithiol) yw:

DISGRIFIAD	NODWEDD	ENGHREIFFTIAU
Dechrau colli /y/ yn y sillaf olaf	/y/ → /i/	<dywedut> 'dweud' (16 enghraifft) ond <dywedyt> (ll. 791) <ystryðys> 'ystrywus' (ll. 7)
Symleiddio deuseiniaid diweddol	/ai/ → /e/	<chware> (ll. 13, 199), <gŵare> (ll. 670) <drychafel> 'dyrchafael' (ll. 644) ond <dyrchafel> (ll. 362, 567)
	/ai/ → /a/	<drychafal> 'dyrchafael' (ll. 205)
	/ei/ → /e/	<dywedesti> 'dywedaist' (ll. 696) <gŵelest> 'gwelaist' (ll. 688)
	/au/ → /o/	<doethoch> 'daethoch' (ll. 842)
Dechrau cyffredinol Gff /o/ L11 a L12 i L13	/a/ → /o/	<buont> (ll. 736) ond <buan> 4 enghraifft <gŵelsont> (ll. 467) ond <gwelsant> (ll. 23)
Colli llafariad o'r ôl-ddodiad Gff L13	/a/ →	<kymersant> (ll. 214, 996) ond <kymersant> (ll. 374)

Trawsosod	/dər-/ → /drə-/	<drychafal, drychafel> ‘dyrchafael’ (ll. 205, 644) <drechefis> Gff U3 (ll. 657) ond <dyrchafel> (ll. 362, 567)
Gwanhau /v/ rynglafarog	/v/ → /w/	<llywassei> ‘llafasai’ (ll. 11) ond <llafassóys> ‘llafasodd’ (ll. 1148)
Cyffredinoli /ag/ o flaen /h/	/a h_ / → /ag h_ /	<ac hyt> ‘a hyd’ (ll. 482)
/ð/ yn hytrach na /v/	/ð/ ~ /v/	<adanc> ‘addanc, afanc’ (ll. 101)
/a/ yn hytrach nag /o/	/wa/ ~ /wo/	<kawat> ‘cawod’ (ll. 444)
Llafariad ymwithiol yn adleisio eiddo’r goben ⁵⁶	/urəv/ → /uruv/	<kynhórf> ‘cynnwr’ (ll. 1076) <tórf> ‘twrf, twrw’ (ll. 683) <ruthur> ‘rhuthr’ (ll. 668)
	/yCər/ → /yCyr/	
Canoli llafariad obennol	/a/ → /ə/	<ynyal> ‘anial’ (ll. 60, 182, 296)
Gwanhau llafariad ragobennol	/a/ → /ə/	<llywassei> ‘llafasai’ (ll. 11) ond <llafassóys> (ll. 1148) <ymdanaó> ‘amdano’ (13 enghraifft) ond <amdanaó> (3 enghraifft) <ymdanei> ‘amdani’ (4 enghraifft) <ymdanunt> ‘amdanynt’ (2 enghraifft)
	/e/ → /ə/	<tybygu> ‘tebygu’ (ll. 16) <yndryfedodeu> ‘enrhyfedodau’ (ll. 1194) ond <enyfedodeu> (ll. 1044)
Cryfhau llafariad ragobennol	/ə/ → /a/	<amwelas> ‘ymwelodd’ (ll. 474) <danwaret> ‘dynwared’ (ll. 57)

Berfau

2.15 cael

Un o hynodion *cael* yn yr oesoedd canol ac yn nhafodieithoedd presennol y Gymraeg yw’r amrywiaeth yn ei bonau (Evans 1970: 149-50; Thomas a Thomas 1989: 68-9). Nid oes, felly, ddim sy’n hynod ynglŷn â chael mai /kav-/ a /kau-/ y bonau cyffredin ar gyfer y Gorffennol a’r Gorberffaith, sydd yn *Peredur* yn y ffurfiau canlynol:

Gorffennol

U1	<kefeis>	
2	<kefeist, keueist>	
3	<kafas, kauas>	L13 <kaóssant>

Gorberffaith

U3	<kaóssei>
----	-----------

<kaff-> ⇐ /kaf-/ yw’r bôn mwyaf cyffredin ar gyfer y ffurfiau eraill yn y testun eithr y mae hefyd enghreifftiau llai nodweddiadol o <ka-> a <kah->

⁵⁶ Mae <ffyrf> ‘ffyr’ (ll. 655) yn amwys.

⇐ /ka-/ ym mhob Amser ac eithrio'r Presennol Dibynnol a'r Gorberffaith (na cheir ond un enghraifft ohono):

<i>berfenw</i>	<kael>	<kahel>	<kaffel>
<i>Presennol Mynegol</i>			
U1			<kaffaf>
2		<kehy>	<keffy>
3			<keiff>
Amhers			<keffir>
<i>Presennol Dibynnol</i>			
U1			<kaffóyf>
2			<keffych>
3			<kaffo>
<i>Amherffaith</i>			
U1	<kaón>	<kahón>	
2			<kaffut>
3			<kaffei>
Amhers	<keit>		<keffit>
<i>Gorffennol</i>			
Amhers		<kahat>	

Gellir dadlau ynglŷn â mân ystyr rhai o'r enghreifftiau eithr prin y mae hynny'n bosibl gyda'r berfenw ac y mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos mai'r un yn eu hanfod yw ystyron y ffurfiau amrywiol ar gyfer y Presennol U2 a'r Amherffaith Amhersonol hefyd:

- 'a'th vrdaó yn varchaóe urdaól a gehy' (ll. 156)
- 'chwedleu y órth y gaer ti a'e keffy' (ll. 1110-1)
- 'ny cheit byth arnam tra barhaei uóyt a llyn' (ll. 345)
- 'Oed wed y keffit y claó' (ll. 1125)

Mae'r Tabl isod yn crynhoi'r ffurfiau ar gyfer yr Amserau amrywiol yn y naill ran o'r testun a'r llall:

FFURF	RHAN I		RHAN II	
	/ka-/	/kaf-/	/ka-/	/kaf-/
berfenw	3			7
Presennol U1				1
2	6	2	1	10
Amhers				1
Amherffaith U1	3			
2				14
Amhers	1			1
Gorffennol Amhers	2			
CYFANSWM	15	2	1	34

Pwysleisir y gwahaniaeth mewn modd mwy trawiadol yn nhermau canran digwyddiad /ka-/ yn y naill ran a'r llall:

RHAN	% /ka-/	N
I	88.23	17
II	2.86	35

Nid yw arwyddocâd yr amrywio hwn yn hysbys eithr y tebygolrwydd yw mai dimensiynau amser neu ddaeryddiaeth a'i cyflyrai.

2.16 Ffuriau Gorffennol U3

Un o'r nodweddion morffolegol sy'n uniaethu ieithwedd *Peredur* â'r cyfnod canol yw'r berfau canlynol y mae ganddynt yr ôl-ddodiaid cytseiniol Gorffennol U3 /t/ neu /θ/:

BERFENW: BÔN	GORFFENNOL U3
<kanu> 'canu': <kan->	<kant> 'canodd'
<kymryt> 'cymryd': <kymer->	<kymert> 'cymerodd'
<gŵan> 'gwân': <gŵan->	<gŵant> 'gwanodd'

Mae yn y chwedl hefyd enghreifftiau o <goruc> 'gwnaeth' a dwy enghraifft o <kigleu>, ffurf Orffennol i <clybot> 'clywed', y naill yn U1 a'r llall yn U3: 'dy glot ry gogleu' 'clywais dy glodydd' (ll. 517)

A phan gogleu gei eu bot yn dyfot... 'A phan glywodd Cei eu bod yn dod...' (ll. 521)

Mwy cyfarwydd yw'r ddwy ferf Orffennol U3 a luniwyd drwy gyfnewid llafariad y bôn am lafariad arall heb ychwanegu ôl-ddodiad:

BERFENW	GORFFENNOL U3
<dŷyn> 'dwyn'	<duc> 'dug'
<dywedut> 'dywedyd'	<dywaŷt> ⁵⁷ 'dywedodd'

Ond y ffordd fwyaf cyffredin o lunio ffurfiau Gorffennol U3 i ferfau rheolaidd (a <kael>) yw drwy ychwanegu ôl-ddodiad. <-aŷd> ac <-ŷys> yw'r mwyaf cynhyrchiol, ôl-ddodiaid y mae eu hymbatrymu yn y testun yn arwyddocaol (Thomas 2000). Rhestrir y berfau sy'n eu dewis yn Atodiad C. I ferfau penodol y cyfyngir y tri sydd weddill, sef <-as, -es, -is>:

- i. <-as> *cael* a *gweled* yn unig
kafas gŷelas>
- ii. <-is> bonau eraill yn <-a-> (a affeithir yn <-e->, ac <-eu->
delis drechefis edewis erchis
menegis peris trewis dineuis
- iii. <-es> bonau yn <-o-> ac <-oe->
anuones kyfodes diodes dioscles
dodes gossodes rodes sorres
torres ysgoges ymchoeles

⁵⁷ Goroesodd <dywaŷt> yn y tafodieithoedd yn y ffurfiau /dəʊad, duad/.

2.17 Yr Ymadrodd Enwol

Cenedl enwau

Pedwar enw yn *Peredur* y mae eu cenedl bellach wedi newid yw <dinas> ac <ergyt>, sydd yn wrywaidd yn y testun, a <llys> a <llyn>, sydd yn fenywaidd (yr olaf yn yr enw cyfansawdd <y byscotlyn>).⁵⁸

Enwau a oleddfir gan rifolion

Yn unol ag arfer Cymraeg Diweddar, y ffurf unigol ar yr enw a geir fel rheol pan oleddfir ef gan rifolyn, e.e.

deu dafyn	dŷ vorŷyn	tri marchaŷc
-----------	-----------	--------------

Yn *Peredur* y mae <gwas, gŵr> ‘gwas, gŵr’ a <mab> yn eithriadol am fod iddynt ffurfiau lluosog a ddefnyddir ar ôl rhifolion uwch na 2;⁵⁹ cf.

deu was	tri gweis, teir chwired
deu ŵr	petwar gŵyr
deu vab	seith meib

Ceir enghraifft bellach yn yr olyniad *deuna *weis o weisson culyon cochyon* (ll. 305), lle’r ymddengys mai cynnal yr ansoddeiriau yw swyddogaeth yr Ymadrodd Arddodiadol.

Pan fydd ansoddeiriau’n goleddfu enw a oleddfir hefyd gan y rhifol <deu> ‘dau’ fe fyddant nid yn unig yn lluosog ond hefyd yn treiglo’n feddal (Evans 1970: 19). Mae *Peredur* yn cynnig tair enghraifft o’r fath:

deu van gochyon (ll. 449, 505)	deu vann gochyon vychein (ll. 313)
deu vilgi vronwynyon vrychyon (ll. 771)	

Ymadroddion Dibynnol

Os bydd pen Ymadrodd Enwol dibynnol yn benodol, ni ddisgwylir i ben yr Ymadrodd annibynnol hefyd fod yn benodol. Annisgwyl, felly, yw cael y tri olyniad canlynol yn y testun:

y kic yr ederyn ‘cig yr aderyn’ (ll. 445)
y drŷs y neuad ‘drws y neuadd’ (ll. 670)
meibon y brenhin y diodeifeint ‘meibion Brenin y Dioddefaint’ (ll. 717-8)

Prin bod yr enghreifftiau hyn yn dystiolaeth bwysfawr o blaid tybied bod yn y testun olion cyfieithu fel y maentumia Goetinck (1976: 88, 97, 100): ceir eu tebyg mewn nifer o destunau eraill a nodwyd enghreifftiau o’r fath hefyd ar lafar pan fo trychiad rhwng yr enw cyntaf a’r ail (Watkin 1958: cxlviii-ix). Clywais innau enghreifftiau heb drychu gan siaradwyr tafodieithoedd deheuol.

⁵⁸ Gallai ymddangos mai enghraifft bellach o amrywio cenedl yw <y trydyd weith> (ll.891) (yn hytrach nag <y tryded weith> (ll.234, 236, 1189). Ond mae’n debycach mai’r hyn sydd yma yw <trydyd> yn goleddfu enw benywaidd, nodwedd nid anghyffredin mewn tafodieithoedd cyfredol. Os felly, cynrychioli /d/ y mae <t> ddechreuol y trefnolyn.

⁵⁹ Gweler hefyd 2.1, lle y trafodir arwyddocâd ychwanegu bwlch neu beidio ar ôl rhifol.

2.18 Nodweddion datblygaethol eraill

Y cyrchfan Adferfol

Cystrawen a oedd yn prysur gael ei disodli yn y cyfnod canol gan gystrawen arddodiadol oedd y cyrchfan Adferfol. Enghreifftir y newid gan gan *Gwyr a aeth Gatraeth* ‘Gwŷr a aeth i Gatraeth’. Mae dwy enghraifft o’r gystrawen yn *Peredur*, a hynny, yn arwyddocaol, yn agos at ei gilydd yn y rhan gyntaf:

A’r marcha**ŋ** gan y gret ar hynny a gychwyn**ŋ**ys racda**ŋ** lys arthur (ll. 173-4)
doethant racdunt lys arthur (ll. 178)

Yr arddodiad <y> ‘i’ sy’n cyfleu’r un ystyr yn yr enghreifftiau eraill o fynd i lys Arthur, e.e.

‘Dos ragot’ heb hi ‘y lys arthur’ (ll. 50)

Odyna y kerda**ŋ** racda**ŋ** y lys arthur (ll. 629)

pan

Gall *pan* fod â’r un swyddogaeth ag yn y cyfnod diweddar, sef yn gysylltair amser sy’n cyflwyno Is-gymal, e.e.

Pan arganfu y corr peredur . ‘haha’ heb ef (ll. 112-3)

Pan doeth y dyd gyntaf kyfodi a oruc peredur (ll. 215)

nyt aut y *ŋ*rthyfi pan aethost (ll. 529-30)

At hynny, gall *pan* fod yn rhagenw gofynnol sy’n cyfeirio at le ac yn cyfleu ‘o ble’:

‘Pan deuy titheu vy chwaer’ heb y peredur . (ll. 400)

‘Pan doy ti vnben’ heb y kei . (ll. 631-2)

Ni oroesodd y swyddogaeth hon i’r cyfnod diweddar. Yn hytrach, fe wahaodd yn y cyfnod canol, cyfnewid a amlygir gan sawl enghraifft yn *Peredur*. Cam yn y datblygiad oedd i *pan* ‘lle’ gael ei ragflaenu gan *Pa le* cyfystyr mewn cwestiwn. Yn hanesyddol (ond nid o raid o safbwynt synchronig), gellir priodoli swyddogaeth berthynol i *pan* yma, e.e.

‘Py le pan deuy ti’ heb y marcha**ŋ** (ll. 163)

gofyn a wnaeth y marcha**ŋ** y peredur py le pan deuei (ll. 277-8)

Amlygu gwanhau hefyd y mae dau ddatblygiad arall. Yn y cyntaf ceir *pan* – yn wahanol i ragenwau gofynnol y cyfnod diweddar – mewn atebion. Pan ddigwydd hynny yn *Peredur* fe fydd y cwestiwn yn cynnwys *py le pan*, a *pan* yr ateb yn eirynd sy’n bras gyfateb i *fe* y presennol:

‘Py le pan deuy ti’ heb y marcha**ŋ** . ‘Pan deuf o lys arthur’ heb ef . (ll. 163-4)

gofyn a wnaeth y marcha**ŋ** y peredur py le pan deuei . ‘pan deuf o lys arthur’ .
(ll. 277-8)

Swyddogaeth berthynol neu gysylltiol *pan* a amlygir gan yr ail ddatblygiad. Yn hwnnw fe ddilyndir *pan* gan *yw*, cyfuniad sy’n cyflwyno elfen a flaenwyd ac yn cyfateb i *mai* y cyfnod diweddar:

dealla**ŋ** peredur pan *yŋ* y lle**ŋ** oed y portha**ŋ** (ll. 563-4)

dywedut ida**ŋ** pan *yŋ* peredur *gŋ* ida**ŋ** a wnaeth y *gŋ*assanaeth h**ŋ**nn (ll. 602-3)

dywa**ŋ** y *gŋ* ll**ŋ**yt y arthur pan *yŋ* peredur a’e goruuassei (ll. 615)

dywedyt pan y⁶ ida⁶ yd oed darogan llad yr ormes honno (ll. 791-2)
 bynt a dewedassant pan y⁶ g⁶archad⁶ y pryf hyny vei var⁶. (ll. 835-6)

Ni oroesodd *pan yw*, wrth gwrs, a hynny oherwydd pwysau gan *mae* (a gynrychiolir gan CD *mai*), datblygiad y tystir iddo yntau yn y testun:⁶⁰

‘menegi ida⁶ mae miui a’th vyry⁶ys’ (ll. 284)
 ‘paham y g⁶dosti wrach mae peredur *dyfi*’ (ll. 431-2)
 yna y g⁶ybu⁶yt mae peredur oed ef. (ll. 663-4)

neur

Cyfuniad o’r geiryn cadarnhaol *neu* a *ry*. Y mae bod pob un o’r pedair enghraifft yn *Peredur* yn cyd-ddigwydd â ffurfiau U3 ar *darfod* y collwyd hwythau erbyn y cyfnod diweddar, yn amlygu’r modd y ciliodd yr elfen hon:

neur dery⁶ udunt g⁶erescyn a diffeitha⁶ y kyfoeth (ll. 422-3)
 neur daroed ida⁶ llad trayan y llu (ll. 590)
 ‘neur dery⁶ y’r macc⁶ŷy llad llawer o’th lu (ll. 591-2)
 yna neur daroed y t⁶rneimeint (ll. 870)

ry

Elfen hynafol arall a oedd ar gil yng Nghymraeg yr oesoedd canol yw *ry*. Mae 19 enghraifft ohoni yn *Peredur*, a hynny mewn tri chyd-destun. O safbwynt datblygiad *ry* y mae niferoedd yr enghreifftiau ohoni ym mhob cyd-destun yn arwyddocaol:

- i. Grym perthynol o flaen berf Orffennol (3 enghraifft)
 - os y u⁶r⁶ ry dery⁶ eiryf g⁶ŷ m⁶ŷyn a uyd arna⁶ (ll. 146)
 - a hynny ry dery⁶ (ll. 346)
 - ‘dy glot ry g⁶gleu’ (ll. 517)
- ii. Gyda’r elfen berthynol *a neu y* o flaen berf Orffennol (5 enghraifft)
 - ‘p⁶ŷ a ry fu yma g⁶edy mifi’ (ll. 80)
 - ‘Dywet’ heb ef ‘a ry fu ef genhyt ti’ (ll. 82)
 - ‘na ry fu myn v⁶g cret’ heb hi (ll. 82)
 - ‘gan vynet trach | gefyn fford y ry uuost’ (ll. 409)
 - ‘ympob g⁶lat o’r y ry fuum’ (ll. 517)

Yn yr un cyd-destun ond <a ry> wedi ymgywasgu’n <ar> (3 enghraifft)

‘Ac vn o deu ar dery⁶ ae u⁶r⁶ ae lad (ll. 145)
 ‘deu parth de de⁶red ar gefeist’ (ll. 238)
 ‘kany⁶s atuyd ae collet ar dothoed ida⁶...’ (ll. 472)

- iii. Gyda berfenw sy’n cyfleu gweithred orffenedig (8 enghraifft)
 - Ac am hynny ry golli eu kym onadunt. (ll. 17)
 - ‘D⁶ŷ o’th eifyr g⁶edy ry uynet g⁶ylltineb yndunt’ (ll. 20)
 - ‘... g⁶edy ry uynet g⁶ylltineb yndunt a ry golli eu kym’ (ll. 21)

⁶⁰ Mae’r cystadlu â *mae* yn awgrymu mai nodwedd ogleddol oedd *pan yw*. Ond rhaid ymbwyllo: ni cheir nemor enghraifft o *taw* (sy’n h⁶yn ond eto bron yn gwbl absennol o ryddiaith yr oesoedd canol oherwydd, mae’n siŵr, ei fod yn ansafonol).

keryd a gauas kei gan arthur a'r teulu am ry wyllta⁶ g⁶as kystal a peredur o
 lys arthur (ll. 290)
 y venegi ry gael y vor⁶yn yn wiryon . (ll. 409)
 yd oed kawat o eira g⁶edy ry odi y nos gynt . (ll. 444)
 A gwalch wyllt g⁶edy ry lad h⁶oyat yn tal y kudygyl . (ll. 444)
 tybyassant ry lad kei (ll. 466)

Gwyddom bellach i <ry> gael ei lwyr ddisodli; mae'r tri dyfyniad tebyg a
 chyfagos canlynol yn enghreifftio sut y gallai <ry, ar> ac <a> ymgyfnewid,
 sef yr hyn y gellir disgwyl y byddai'n rhan o broses colli <ry>:

'os y u⁶r⁶ ry dery⁶ eiryf g⁶r m⁶yn a uyd arna⁶' (ll. 146)
 'Ac vn o deu ar dery⁶ ae u⁶r⁶ ae lad' (ll. 145)
 'os y lad a dery⁶; yr aglot val kynt a gertha' (ll. 147)

Fel gyda chynifer o nodweddion eraill, dim ond yng nghyd-destun llawer
 mwy o enghreifftiau y deuir i wir werthfawrogi unrhyw negeseuon a gyfleir
 gan y data hyn. Ond o ran *Peredur*, nodwedd brin bod gan *ry* swyddogaeth
 berthynol: dim ond teirgwaith (16%) y'i ceir. At hynny, gallai fod yn
 arwyddocaol mai mewn llafar y ceir yr holl enghreifftiau o'r ffurf
 gywasgedig <ar> ac mai yn y naratif y ceir pob dangosyn ond un o <ry> o
 flaen berfenw.

yn y, lle y

Cysylltair cyffredin yng Nghymraeg yr oesoedd canol oedd *yn* 'lle', a
 ddilynid gan yr elfen gysylltiol *y(d)* (Evans 1970: 71-2). <yny(d)> yw
 ffurf gyson Llaw D, awgrym nad oedd yn ymwybodol o'r tarddiad. Ceir
 ugain enghraifft yn *Peredur*, e.e.

ymchoela⁶d peredur yn yd oed y vam a'r nifer (ll. 41)
 aeth ynteu peredur racda⁶ yn yd oed y keffyleu a gywedei gynnut (ll. 43)
 a thrachefyn y doeth yn yd oed y vam (ll. 46)
 'Dos ragot' heb hi 'y lys arthur yn y mae goreu y g⁶yr...' (ll. 50)
 'Yn y g⁶elych egl⁶ys; can dy pater ⁶rthi' (ll. 50)

Ond y mae hefyd ddwy enghraifft o *lle* yn cyflawni'r un swyddogaeth,
 awgrym bod *yn* yn cael ei ddisodli:

'Vy mam a erchis imi kymryt tl⁶s tec y lle y g⁶el⁶n' (ll. 74)
 aeth peredur lle y clywei bot y sarff (ll. 622)

2.19 Geirfa

Gan fod geirfa pob iaith yn newid a datblygu dros amser, a bod rhyw chwe
 chanrif ers cynhyrchu'r Llyfr Gwyn, nid rhaid rhyfeddu bod y testun yn
 cynnwys nifer o eiriau dieithr. Adlewyrchu cymdeithas yr oesoedd canol y
 mae llawer o'r geiriau hyn, e.e.

dillad y cyfnod

bronfoll 'gwisg am y fron'
 c⁶nsallt 'mantell'

capan 'mantell'
 penffestin 'cap mael'

defnyddiau

bliant ‘defnydd tenau drud’ pali ‘sidan addurnedig drud’
 eurgrôdydr ‘ac arno rwyllwaith o aur’

Yn fwyaf arbennig, efallai, wrth gyfeirio at y campau milwrol sydd mor amlwg yn y stori, fe gyflwynir toreth o dermau arbenigol:

kyfeistydyad ‘gwarchae’	kyfluanu ‘ymosod yn greulon’
dechreu arad ‘ymosod arno’	diffryt ‘amddiffyn’
drychafal llaw ‘ergydio’	gossot ‘ymosod ar gefn ceffyl’
lleassu ‘lladd mewn modd mileinig’	teimlad arueu ‘meistroli defnyddio arfau’
ymchoelut ‘troi i ymosod’	ymgaffael ‘wynebu mewn brwydr’
ymgyfaruot ‘dod ynghyd i frwydro’	ymgyrchu ‘ymosod ar gefn ceffyl’

Yn yr un modd, anodd i’r storïwr fuasai osgoi enwi rhai o swyddogion a’r milwyr perthynol:

distein ‘prif stiward y llys’	maccôy ‘gwas llys ifanc’
nifer ‘gogordd’	penteulu ‘pennaeth gwarchodlu’
porthaôr ‘porthor’	teulu ‘gwarchodlu’

O blith yr uchod, dim ond **porthaôr** – yn y ffurf ddiweddar **porthor** – sy’n gwbl gyfarwydd bellach. Gwir bod **nifer** a **teulu** ar arfer o hyd, eithr digon gwahanol yw eu hystyron. **Teulu** (a’r amrywiadau dibwys o safbwynt semantaidd **tevlv**, **teulv**) yw ffurf arferol y pedwar testun; ond yn P7 ceir amrywiad mwy arwyddocaol: **teilv**, sy’n amlygu tras y gair. ‘Llu y **thp**’ (sef llys y brenin) oedd y ‘tei lu’ yn wreiddiol: cymathu ystum gwefusol yr /i/ at elfen gron yr /y/ ddilynol a barodd gymylu’r tarddiad yn y ffurf **teulu**. Datblygiad diweddarach oedd y cyfnewid semantaidd: o ‘nifer o unigolion arfog a gysylltir â **thp** penodol’, i ‘unigolion a chanddynt berthynas o waed’.

Ychydig yn wahanol fu datblygiad semantaidd **cyngor**. Fel **teulu** magodd **cyngor** ail ystyr hefyd. Ond yn wahanol i **teulu**, cadwodd **cyngor** y ddwy ystyr: ‘barn, cyfarwyddyd’, a hefyd ‘corff sy’n rhoi barn neu gyfarwyddyd’. Ceir y ddwy yn *Peredur*, e.e.

A’r amherodres a ofynnaôd **kyghor** y ôr doeth oed yn y **chyghor** (ll. 895).

Bellach gwahaniaethir rhwng y ddwy ystyr yn y ffurfiau lluosog: **cynghorion** ‘barnau’ ond **cynghorau** ‘cyrff llywodraethol’. Ond ymddengys na chododd y gwahaniaeth defnyddiol hwn tan ddiwedd yr 16g: yn 1588 y cofnodir **cynghorion** gyntaf (cf. GPC 740b). Cwbl nodweddiadol o’r cyfnod canol, felly, yw bod **cynghorau** yn cyfeirio at farnau:

‘aro y genhyfi gyghoreu kyn dygychwyn’. (ll. 48-9)

Enw arall a newidiodd ei ystyr yw **trwydded**. Nid at ddogfen sy’n rhoi hawl i wneud rhywbeth penodol y cyfeiriai **trwydded** yn wreiddiol, ond at hawl i fyw yn y llys; hynny a gawn yn *Peredur* pan sonnir am y cor a’r gorres yn ‘erchi trôydet y arthur’ (ll. 110-1).

Rhai o nodweddion yr ysgrifydd

2.20 Byrfoddau

Nid techneg ddieithr i'r ysgrifydd canoloesol oedd byrhau olyniadau aml eu digwydd – trefniadaeth brofedig ac effeithiol a arbedai amser, inc, a memrwn ac yr oedd iddi ymhlygiadau (ac efallai ysgogiadau) economaidd am ei bod yn effeithio ar amser yr ysgrifydd a'i ddefnyddiau. Byddai dau fath o ddyfais fyrfoddol yn ymgynnig i Gymro'r oesoedd canol: nifer o gywasgiadau diffiniedig, Lladin eu sail ond a ddaethai'n rhyngieithol; a'r atalnod llawn a'r collnod, a ddefnyddid mewn modd *ad hoc* i gwtogi geiriau cyfarwydd.

Erbyn y ddeuddegfed ganrif yr oedd ysgrifwyr y Lladin a'r Ffrangeg wedi datblygu nifer o fyrfoddau i gyfleu'n gynnil rai o'r sillafau a ysgrifennent yn gyffredin (Barret & Iredale 1995: 56-63). Treiddiasai'r arfer hwnnw i Gymru, ac arwydd o fywiogrwydd y traddodiad yma oedd bod ysgrifwyr o Gymry wedi cymhwyso elfennau byrfoddol cydwladol at y Gymraeg.⁶¹ Yr uwchsgript <^a>, a gyfleai <ur> yn y Lladin a'r Ffrangeg, yw'r enghraifft amlycaf o'r creadigedd hwn yn *Peredur*: y mae'n britho'r testun yn yr enwau <pered^a> 'Peredur' ac <arth^a> 'Arthur' ac yn digwydd hefyd yn yr ansoddair llai cyffredin <p^agoch> 'purgoch'. Gan fod enw'r arwr mor gyffredin yn y testun (fe'i ceir 257 o weithiau) yr oedd atyniad amlwg hefyd i'r llinell a dynnid drwy gynffon <p> i ddynodi <per> (ymhlith sillafau eraill), yn y ffurf <pedur>. Ar brydiau fe gyfunid y ddwy dechneg: <ped^a>.

Nid gweithred awtomatig oedd talfyrru <peredur>: y ffurf lawn a roddir y bedair waith gyntaf, ac nid tan yr unfed enghraifft ar hugain (col. 124, ll. 30) y mentrir ysgrifennu <ped^a>. Yn yr un modd, nid tan y drydedd enghraifft ar ddeg o'r enw (col. 123, ll. 28, ar yr un ddalen â'r <ped^a> cyntaf) y ceir <arth^a> yn hytrach nag <arthur> (enw sy'n digwydd 85 o weithiau yn y testun cyfan). Ar ddiwedd llinellau y daw'r naill ffurf dalfyredig gyntaf a'r llall, awgrym mai ystyriaethau gofodol a gyflyrai'r dewis yn y manau hynny. (Nid oes yr un enghraifft o rannu <Peredur> ac <Arthur> dros ddwy linell.) Ond nid rhaid mai'r un ysgogiad a rwystrai dalfyrru ynghynt; yn hytrach, y mae'n bosibl bod yma gyfuniad o ffactorau yn rhyngweithio: gofod, ymglyfarwyddo'r ysgrifydd â'r enwau, ac, efallai, ymglywed o'r ysgrifydd â chynefindra cyfatebol ei ddarllenydd.

⁶¹ O ran testunau *Peredur*, P7 yw'r cyfoethocaf a'r mwyaf amrywiol ei fyrfoddau: dim ond yn y testun hwnnw y ceir <ɜ> am <ed> ⇐ /eð/ yn <anrydɜ> 'anrhydedd', <ɪ> am <ri> yn <tɪ, tɪstwch> 'tri, tristwch', ac <ɛ> am <er> yn <amsɛ, hannɛ> 'amser, hanner'. Defnyddir <ɔ> yn helaethach hefyd, yn <deled^ɔ, kruckalar^ɔ> 'dyledus, crug galarus'; mae'r dechneg yn cyrraedd uchafbwynt nodedig yn y ffurf eithriadol <kym^ɛed^ɔ> 'cymeredus'.

Nid cyfrwng llafar y Gymraeg ond cyfrwng ysgrifenedig y Lladin yw sail yr arwyddion ar gyfer <ur> ac <us>. /ur/ ac /us/ a gynrychiolir gan y rhain mewn Lladin clasurol,⁶² ond ni cheir /us/ mewn geiriau brodorol Cymraeg ac nid ar gyfer /ur/ y Gymraeg y defnyddir y byrfodd (h.y. nis ceir yn talfyrru ffurfiau fel <milŵr, ymdidanŵr> ‘milwr, ymddiddanwr’). Yn hytrach, /ys/ ac /yr/ – olyniadau llafar y gallai <us> ac <ur> eu cyfleu – a gynrychiolir gan y byrfoddau yn y Gymraeg. Yr hyn a wnaethpwyd, felly, oedd tynnu ar arwyddion Lladin eu sail ar gyfer byrfoddi ffurfiau *ysgrifenedig* y Gymraeg.

Yn wahanol i *Arthur* a *Peredur*, ni chynigiai ysgrifwyr y Lladin unrhyw ganllawiau ar gyfer byrfoddi *Gwalchmei*. Er mwyn byrfoddi’r enw aml ei ddigwydd hwn, felly, fe dynnwyd ar ddyfais arall – y collnod – a chynhyrchu’r byrfodd unsill pwrpasol <gŵalch> (a’r amrywiad <gŵal’>, nad yw’n digwydd ond unwaith). Fel gyda’r byrfoddau eraill, fodd bynnag, dim ond yn sgîl cynefindra y mentrir talfyrru, sef ar ôl 22 enghraifft o ysgrifennu’r ffurf lawn <Gŵalchmei>, a hynny yng ngholofnau 168-70, lle y crynhoir saith enghraifft; dim ond unwaith y’i ceir ar ôl hynny, sef tua diwedd y chwedl, yng ngholofn 177.⁶³

2.21 Gwallau

O ystyried hyd y testun, digon prin yw’r enghreifftiau sicr o gyfeiliorni. Un rheswm am hynny yw bod y copiwr yn gwirio’i waith ei hun a phan wêl iddo hepgor graffem ar ddamwain fe’i hychwanega ag uwch-lythyren, e.e.

<ch^wemeib> ‘chwemeib’ (WM 117.8) <daŵt> ‘diod’ (WM 120.14)
<ar^yhyt> ‘ar ei hyd’ (WM 130.17) <gŵl’> ‘gwlad’ (WM 144.13)

Yn yr un modd, pan wŷr iddo ychwanegu elfen ddiangen, fe’i cawn yn ei dileu yn y dulliau arferol, sef drwy godi wyneb y memrwn ag erfyn miniog (yng ngholofn 125) neu â’r *punctum delens* o dan yr elfen wallus), e.e.

<kyfeiste^yd^yaŵd> ‘cyfeistyddio’ (WM 167.11)
<Colledeu> ‘colledu’ (WM 175.10)

Nid yw’r gwallau na sylwodd yr ysgrifydd arnynt yn niferus eithr nid yw heb fethu’n achlysurol.

Nodweddiadol o’r traddodiad golygu yw’r cyfeiriadau *ad hoc* sydd gan Goetinck at wallau Llaw D. Fel y ceisir dangos isod, fodd bynnag, o werthuso’r cyfeiliornadau hynny yn eu crynswth a’u cyd-destun fe ddeuir i

⁶² Yn fersiwn P7 y byrfoddir <us> (gw. N.61). Nid dyma’r lle i drafod ynganiad Lladin Cymro’r oesoedd canol, ond mae <Dews> yn *Llyfr Du Caerfyrddin* (Jarman 1982: 28.19) yn tystio bod <us> ⇒ /us/ yn bosibl.

⁶³ Fel gyda’r byrfoddau (N.61), mae ysgrifydd P7 yn helaethach ei ddefnydd o’r collnod hefyd ac yn dechrau ei ddefnyddio ynghynt, weithiau yng nghyd-destun yr atalnod <.>: try <gwenhwyuar> yn <gwenh’> erbyn yr ail enghraifft ac mae <gwrwynllwy> yn cynyddol golli elfennau: <gwrwynll’>, <gwr gwynl’>, <gwr gwy.>, <g’. g’>.

ymglywed â'r ysgogiadau isorweddol iddynt fel y bydd deongliadau gwahanol yn ymgynnig am eu harwyddocâd. Sylwer, er enghraifft, ar yr enghreifftiau canlynol:

yn y teyrnas goreu dyn a lad a cledyf *ôyt* . (ll. 238; WM col.130, ll. 6-7)

at^hitheu (ll. 382; WM col.137, ll. 16)

Aperedur gyt ac ef (ll. 667; WM 152, ll. 5)

Aphren hir a welei ar lan yr afon . (ll. 769; WM col.157, ll. 17)

Ymwneud â'r treigladd laes y mae'r pedair enghraifft hyn.⁶⁴ O safbwynt normadaidd, digon priodol oedd ychwanegu <h> er mwyn cael cywiro'r ail enghraifft; ond beth am y lleill? Ni sylwyd ar absenoldeb yr <h> yn yr olyniad cyntaf a'r trydydd, ac yn y pedwerydd fe'i cywirwyd drwy ychwanegu'r <h> ddisgwyliedig ond yna ei dileu â'r *punctum delens*. Onid cynnyrch diffyg canolbwyntio sydd yma? Yn sgîl hynny fe adawodd Llaw D inni dystiolaeth am un o nodweddion ei iaith anffurfiol, ffenomen a amlygir yn arbennig yn y dryswch ynglŷn â phriodoldeb <h> yn y bedwaredd enghraifft. Nodwedd dra chyfarwydd yng Nghymraeg y cyfnod presennol yw amrywedd y treigladd laes: dyma dystiolaeth mai yn y cyfnod canol y dechreuodd yr amrywio hwnnw.

Yn ogystal â charfanu enghreifftiau o'r un nodwedd gyda'i gilydd er mwyn ceisio dehongli eu harwyddocâd, gellir eu hystyried o ran eu safle yn y testun. O'r safbwynt hwnnw fe welir nad yw'r gwall cyntaf uchod yn ynysedig. Yn hytrach, fe geir dau arall yn y ddwy linell nesaf:

duó genhyt . yny teyrnas goreu dyn

a lad acledyf *ôyt* . deu parth dedeóred

ar gefeist . ar trayan yssyd heb gahel . (WM col.130, ll. 6-8)

Achub y blaen ar y <de> yn <deóred> 'dewredd' a wnaethpwyd wrth ysgrifennu'r rhagenw blaen U2 (cf. <dewedassant> 'dywedasant', ll. 836), ac yn y llinell nesaf fe hepgorwyd y rhagenw blaen U3 <y>. Dyma, felly, dri gwall yn cyd-ddigwydd, tystiolaeth sy'n atgyfnerthu'r ddamcaniaeth uchod am ddylanwad diffyg canolbwyntio ar yr ysgrifydd. Ychydig yn nes ymlaen y mae'n mymsgwyd ac – yn yr un golofn, yn llinell 17 – yn ei gywiro'i hun:

A their ffrót ar ^yhyt | yn redec or món hyt y llaót.

Ond mae'r syrthni'n ailgydio ac yn y golofn nesaf y mae'n ansicr ai <kany> ynteu <kanyt> sy'n briodol yn llinell 33:

A thitheu taó bellach ath drycyruerth kany's nes góaret it no chynt.

⁶⁴ Deillio o ehangu'r ffurfiau talfyredig <ped^o> a <pedur> y mae dwy enghraifft ymddangosiadol bellach: *g ŷas kystal a peredur* (ll.290; WM col. 132, ll. 28-9); *A peredur a ofynna ŷl idi beth a ŷlei* (ll.674-5; WM 152, ll.19-20).

WM	GWALL	DEHONGLIAD
144.13	ympob gŵl ^t	hepgor a gywirwyd
144.21	Ma a wydŵn	achub y blaen; darllener <i>Mi</i>
144.29	lla[ŵ] yn llaŵ	cywiro gwall dechreuol, hepgor diweddol
144.34	a chyt a mi y trigye	gwall unigryw; darllener <i>triggy</i>
145.7	parch ac enrydet	?trawsosod; darllener <i>enryted</i> neu <i>enryded</i>
145.8	y[m]choelut	hepgor
145.11	ac ydoeth ydydoed	?camddehongli; ?drll <i>adoeth</i> ‘digwyddai’
146.11	arwein y warch	ailadrodd graffem berthynol; darllener <i>varch</i>
146.12-3	ef a welei am ganaŵl [y d]jyffryn kastell	hepgor sillaf debyg
146.16	Mŵy oed noc gŵr or a welsei eiroet .	defnyddio ffurf raglafarog
147.7	yr pan o yth weleis	ychwanegu sillaf ddiystyr
147.30	Ac y deuth [y] wreic ohen... at y gŵr llŵyt .	hepgor sillaf (sef y fannod)
148.7	Ar wreic ohen a ^r vorŵyn tec	hepgor a gywirwyd

O blith yr uchod, efallai mai <ydoeth> (WM 145.11) yw'r mwyaf problematig. Tybied mai'r adferf *adoeth* ‘fel y digwyddai’ a ddisgwyliid yma a wnaeth Goetinck a hynny a argreffir ganddi (1976: xiii, 35.25):

A'r nos gyntaf y doeth Peredur i Gaer Llion y lys Arthur, ac adoeth yd ydoed yn troi yn y gaer gwedy bwyd.

Ond nid rhaid mai tystiolaeth am ddieithrwyd *adoeth* sydd yma. Mae effaith blinder hefyd yn bosibilrwydd, cyflwr a allai fod wedi ysgogi:

- i. ailadrodd <y doeth>, sydd ar ddechrau'r dyfyniad uchod;
- ii. ar ddechrau colofn y daw *adoeth* (yn y ffurf <ydoeth>); nid dyma'r unig dro y gallai hynny fod wedi sbarduno amryfusedd;
- iii. clywed /adŵiθ/ yn /ədŵiθ/ ac ysgrifennu <ydoeth>.

Os anodd torri'r ddadl am arwyddocâd ambell ffurf, y mae eraill yn tystio'n groywach i bwysigrwydd yr elfen lafar wrth drosglwyddo'r testun o'r cynsail i'r copi: yr ysgrifydd yn cofio ac yn ailadrodd darnau o'i gynsail, mae'n debyg. Camrannu – cynnyrch dehongli olynid llafar – a sbardunodd gynhyrchu <na gofit> yn lle <na gofit> ‘na gofid’ (ll. 396) a <noc gŵr> yn hytrach na <no gŵr> ‘na gŵr’ (ll. 559). Y prosesau tebygol yma oedd:

- i. llefaru /na'govid/, /no'gu:r/
- ii. clywed /nag.../, /nog.../
- iii. ysgrifennu <nac>, <noc>
- iv. cywiro'r dehongliad wrth gyrraedd yr enw ond peidio â chywiro cytsain ddiweddol <nac> a <noc>
- v. ysgrifennu <gofit> a <gŵr> yn y modd priodol

Un o negeseuon yr enghreifftiau uchod yw bod angen cryn ofal wrth ddehongli arwyddocâd ffurfiau annisgwyl unigol yng ngwaith ysgrifydd sydd fel rheol yn dra chywir a gofalus. Yn sicr, nid heb ymbwyllo y mae

derbyn dyfarniad Goetinck (1976: 93, 94) mai ‘-t = -dd, sef orgraff y Llyfr Du’ sydd yn <enrydet> (145.7), ac mai ‘hen orgraff w = f’ a amlygir gan <y warch> ‘ei farch’ (146.11). Y mae yma rybudd i’r beirniad llenyddol yntau oherwydd gallai amryfusedd testunol gyd-daro â chyfeiliorni wrth gopïo.

2.21 Atalnodi a maint llythrennau

Seiliau semantaidd sydd i gonfensiynau atalnodi’r cyfnod diweddar, sy’n rhannu llafar yn eiriau yn unol â’u statws geiriadurol ac yn ychwanegu arwyddion fel dyfynodau, holnodau, ac ebychnodau er mwyn cyfleu elfennau o ystyr. Sail fwy ffonolegol sydd i ysgrifennu Llaw D: yn hytrach nag arwyddion semantaidd y cyfnod diweddar, gofodi amrywiol, y gall ei bresenoldeb a’i absenoldeb gael eu llywio gan rythmau’r iaith lafar, yw un o brif hynodion ei ysgrifennu ef. Nid rhaid mai rhwng geiriau y mae ei ofodau ef: fel y dengys olyniadau fel <Afynorec awascóys... athrachefyn y doeth> ‘a phynoreg a wasgodd... a thrachefn y daeth’ (WM 119.23-4) gall hefyd rannu olyniadau yn unedau rhythmig. Yn hynny o beth, y mae Llaw D yn nodweddiadol o’i gyfnod: cynrychioli llafar a wnâi ysgrifennu, fel yr enghreifftir yn drawiadol gan Gymal mewn siartr – Eingl-Normanaidd, mae’n wir – o’r drydedd ganrif ar ddeg sy’n ymwneud â phriorddy Mair yn Nhrefynwy: *sicut presens breve loquitur* ‘fel y llefara’r ddogfen fer hon’ (Clanchy 1993: 255). Wrth geisio deall sut y dymunai Llaw D i’w gynnyrch ef lefaru y mae dwy brif ystyriaeth i’w hwynebu: dyfeisio fframwaith disgrifiadol ar gyfer cyfleu swyddogaethau yr amryfal ddyfeisiadau a ddefnyddiai, ac yna ddehongli ei fwriadau (cf. Lucas 1997: 167).

Yn ogystal â rhythmau’r gofodi amrywiol, dwy ffenomen arall sy’n uniaethu Llaw D â’i gyfnod ond nad yw golygyddion testunau rhyddiaith Cymraeg canol wedi gwerthfawrogi eu harwyddocâd hwythau yw bod ganddo system atalnodi a’i fod yn arddel pedair gradd o lythrennau: estynedig (dwy linell o hyd), mawr, canolig, a bach.⁶⁶ Y mae Llaw D yn nodweddiadol hefyd o ran ei bod yn eglur mai copiwr deallus a gofalus ydoedd, un a hyfforddwyd i arfer confensiynau penodol: y mae athroniaeth benodol (neu, efallai, gyfuniad o athroniaethau) yn llywio’r modd y mae’n dotio <y> (2.2, N.9) ac yn dewis rhai graffemau, megis <k> yn hytrach nag <c> o flaen <y> (2.3), a <g> ⇐ /ŋ/ (2.4). Nid yn ddamweiniol ychwaith y defnyddiai lythrennau o faintioli gwahanol nac atalnodau penodol.

⁶⁶ Am resymau esethetig fe gynrychiolir y llythrennau canolig eu maint yma â phrif lythrennau bach.

Cyhoeddi dechrau'r chwedl y mae'r llythyren estynedig gyntaf yn *Peredur*.⁶⁷ Fel tair o chwedlau'r Mabinogi, cyflwyno cymeriad y mae'r frawddeg agoriadol, eithr er bod y fformiwlâ'n adleisio eiddo'r chwedlau brodorol, nid person canolog i'r brif stori ond un digon ymylol sydd yma a pherthynas strwythurol wan sydd gan yr agor â'r gweddill o'r stori; cf.⁶⁸

Efraŵc iarll bioed iarllaeth yn y gogled... (ll. 1)

Pwyll, Pendeuc Dyuet, a oed yn arglwyd ar seith cantref Dyuet. (Williams 1930: 1)

Bendigeiduran uab Llyr, a oed urenhin coronawc ar yr ynys hon... (Williams 1930: 29)

Math uab Mathonwy oed arglwyd ar Wyned, a Pryderi uab Pwyll oed arglwyd ar un cantref ar ugeint yn y Deheu. (Williams 1930: 67)

Enw cymeriad pwysicach – ond nid yr un canolog eto – a gyflwynir gan yr unig ddwy lythyren estynedig yng nghorff y testun hefyd, ar ddechrau Cymalau sydd hwythau'n dynwared agor *Pwyll*.⁶⁹ cf.

Arthur a oed yg Kaer Llion ar Wysc a mynet a wnaeth y hela a Peredur gyt ac ef. (ll. 666)

Arthur a oed yg Kaer Llion ar Wysc, priflys idaw... (ll. 927)

Pwyll, Pendeuc Dyuet, a oed yn arglwyd ar seith cantref Dyuet. A threigylgweith yd oed yn Arberth, prif lys idaw, a dyuot yn y uryt ac yn y uedwl uynet y hela. (Williams 1930: 1)

Er amlyced y rhaniadau llawysgrifol, felly, nid cyflwyno'r prif gymeriad yw swyddogaeth yr un o'r fformiwlâu sy'n eu hagog; yn hytrach – ac yn enwedig o gofio bod fformiwlâu cloi yn rhagflaenu'r ddwy lythyren estynedig yng nghorff y testun – ymddengys mai arwyddo dechrau deunyddiau o wahanol ffynonellau y mae'r llythrennau hyn. Os felly, dyma dystiolaeth weledol am ddatblygiad *Peredur* fel y'i ceir yn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch. Y mae'n bosibl, gan hynny, mai ymgais i gyflwyno unoliaeth i'r chwedl yw Arthureiddio fformiwlâu agor traddodiadol ar ddechrau atodiadau i'r chwedl wreiddiol.⁷⁰

Tri o arwyddion ei gyfnod a ddefnyddir gan Law D er mwyn atalnodi: y *punctus* < . >, y *punctus elevatus* < ; >, a'r colon < : > (nad yw'n digwydd ond dwywaith yn *Peredur*, mewn cyd-destunau sy'n unol â'r defnydd mwy cyffredinol ohono, sef y rhai a gysylltir â'r *punctus elevatus* (Parkes 1992:

⁶⁷ Dyma ddyfais estron i ysgrifen y cyfnod diweddar, ond un a ddefnyddir yn aml mewn gweithiau printiedig.

⁶⁸ Y mae hyn er gwaethaf y posibilrwydd y byddai cynulleidfâ ganoloesol yn gyfarwydd â stori goll am Efracw.

⁶⁹ Dyma farn Roberts (2000) hefyd; gweld y rhain yn dynwared fformiwlâ agoriadol *Owein* y mae Davies (1995: 130).

⁷⁰ Ceir trafodaeth ar y cysyniad o 'destun' *Peredur* gan y Dr Brynley F. Roberts (2000).

69)).⁷¹ Y mae tuedd bendant i'r rhain gyd-ddigwydd â llythrennau o faintioli penodol: < . > yn debycach o ragflaenu llythyren fawr nag un ganolig neu fach, < ; > yn sicr iawn o ragflaenu llythyren fach.⁷²

ATALNOD	<A>	<a>	<a>	N
< . >	54.97	21.04	24.00	1621
< ; >	0.00	7.94	92.06	63

Efallai mai nodwedd fwyaf trawiadol y Tabl uchod yw tuedd benodol y *punctus elevatus* i gyd-daro â'r llythyren fach, a'i absenoldeb llwyr o flaen llythyren fawr. Ond os ystyrir mai math o lythyren fawr yw'r un ganolig (mae'n sicr nad llythyren fach ydyw), yna y mae'r *punctus* yn cyd-ddigwydd â 76.01% o'r llythrennau nad ydynt yn rhai bach.

O safbwynt ieithyddol y mae i'r *punctus elevatus* sawl swyddogaeth:

- i. Cyflwyno prif Gymal sy'n dilyn Is-gymal, e.e.
 - Yn y gŵelych eglbys ; can dy pater ōrthi . (ll. 50-1)
 - os y lad a deryō ; yr aglot val kynt a gertha . (ll. 146-7)
 - py le bynhac y bŵyf ; gŵr idaō vydaf . (ll. 157)
 - A phei bydōn a uei hŵy ; nys goruydōn byth . (ll. 272-3)
 - A phe gŵypōn uot dy gynnyd val y bu ; nyt aut y ōrthyfi pan aethost . (ll. 529-30)
 - Pan uu amserach ganthunt kymryt hun no chyfedach ; y gyscu yd aethant . (ll. 581-2)
 - A chyn dyuot y gŵyr oc eu neges ; ef a deuth marchaōc y'r weirglaōd y emyl llys arthur y erchi gŵr y ymwan . (ll. 640-1)
 - 'Pan geissych ti viui ; keis parth a'r india' . (ll. 760)
- ii. Cyflwyno prif Gymal sy'n dilyn Atodolyn cysylltiol, e.e.
 - Ar hynny ; llyma was gŵineu telediō yn agori y porth . (ll. 414)
 - Sef a oruc peredur ; sefyll . (ll. 446)
 - Sef oed hōnnō ; y gŵr bioeod y llys . (ll. 984)
 - Sef a oruc gŵalchmei ; a chlaōr gŵydbŵyll diffryt rac dyfot neb y vynydd hyny doeth y gŵr o hela . (ll. 1004-6)
- iii. Cyflwyno prif Gymal ar ôl cyfarchiad neu ebychiad, e.e.
 - 'Y gŵr hir' heb y peredur yna ; 'manac imi mae arthur' (ll. 125)
 - 'Taō a'th son' heb y kei ; 'dos yn ol y marchaōc a aeth odyma y'r weirglaōd' . (ll. 126-7)
 - 'Arglŵydes' heb ef ; 'moes imi y gorulōch' . (ll. 909-10)
- iv. Cyflwyno canlyniad, ymhlygiad, neu ddigwyddiad disgwylidig, e.e.
 - Ryfōd yō genhyf kadarnet y dywedy ti dy vot ; pŵy a diodes dy lygat (ll. 691-2)
 - Ac ymlad a wnaeth efo a'r gŵr du ; hyny uu reit y'r gŵr du erchi naōd y peredur . (ll. 705-6)
 - A cherdet racdaō a wnaet[h] peredur ; ac ef a glywei tŵrōf yn y ol . (ll. 797-8)

⁷¹ Ar y llinell waelod y daw'r *punctus*; gall ddod yn union ar ôl llythyren olaf y gair sy'n ei ragflaenu eithr fe'i ceir hefyd rhwng y llythyren honno ac un ddechreuol y gair nesaf.

⁷² Y mae hefyd enghreifftiau o lythrennau mawr a chanolig nas rhagflaenir gan atalnod.

ac nyt ymgynhalyssant ygyt ; namyn pob vn yn y gyfeir . (ll. 979)
 ‘Och a truan’ heb ef ‘ny dylyy gaffel bendith ; ac ny ffrŷtha it’ . (ll. 1024-5)
 ‘Nyt yttiŷ y claŷr y lle kyntaf y keueist ; dos trachefyn a llad ef’ . (ll. 1135-6)

Ateb i gwestiwn yw’r ‘canlyniad’ yn yr enghraifft ganlynol, ac y mae’r *punctus elevatus* o’r herwydd yn ymdebygu i holnod:

‘Py ryŷ ormes yŷ’ ; ‘karŷ yssyd yno’ . (1139-40)

Y mae’r rhan fwyaf o’r enghreifftiau o’r *punctus elevatus* yn ymddosbarthu’n dwt. Er hynny, nid yr is-ddosbarthau ieithyddol sy’n bwysig ond swyddogaeth gyffredinol yr arwydd: rhybudd semantaidd ei sail ydyw na fydd synnwyr yr hyn a ddarllenir yn gyflawn heb yr hyn sy’n dilyn hefyd. Enghreifftir y wedd gyffredinol hon gan yr olyniad canlynol, nad yw’n ymdebygu’n gystrawennol i’r enghreifftiau eraill uchod:

kyfaruu ac ef yn eisted ar ben cruc ; y wreic teccaf o’r a welsei eiroet . (ll. 751-2)

Os nodiant i ddarllenydd neu ddatgeiniad y testun oedd y *punctus elevatus*, nid mor eglur swyddogaeth y *punctus* a maint y llythrennau. Mae llawn ddehongli cydberthynas yr elfennau hynny yn y testunau rhyddiaith Cymraeg yn brosiect sylweddol ac yn gofyn am gymharu atalnodi testunau cyfochrog (fel eiddo’r Llyfr Gwyn a’r Llyfr Coch) yn ogystal ag ystyried y ffenomen mewn amrediad o fathau o destunau a chan nifer o ysgrifwyr.⁷³ Ond y mae’r 1,623 o enghreifftiau o’r *punctus* yn *Peredur* yn mynnu sylw. Sylwer ar y frawddeg ganlynol o *Peredur* Goetinck (1976: 26-9):

Ynteu a doeth yn yd oed Peredur, a chyfarch gwell idaw a wnaeth, a dywedut idaw y gwassanaeth a wnathoed, y talei idaw megys y mynhei e hun.

Nid un uned ond pedair sydd yn y gwreiddiol (ll. 1101-3):

Ynteu a doeth yn yd oed peredur . A chyfarch gŷell idaŷ a wnaeth . A dywedut idaŷ y gŷassanaeth a wnathoed . y talei idaŷ megys y mynhei ehun .

Ymddengys i mi fod brawddeg hir Goetinck yn cuddio strwythur cynhenid y naratif. Oherwydd o gymryd bod yr atalnodau a’r llythrennau yn dynodi tair gradd mewn hierarchaeth – un y gallai fod iddi ymhlygiadau datgeiniol – nid rhuthro’n un-frawddegol drwy’r digwyddiadau a wneir, ond symud yn Gymalol fesuredig hyd nes cyrraedd uchafbwynt diwedd yr olyniad:

RHENG	CYMALAU
1	Ynteu a doeth yn yd oed peredur .
2	A chyfarch gŷell idaŷ a wnaeth .
2	A dywedut idaŷ y gŷassanaeth a wnathoed .
3	y talei idaŷ megys y mynhei ehun .

⁷³ Ychydig iawn o waith a wnaethpwyd ar atalnodi llawysgrifau canoloesol mewn ieithoedd eraill Lucas (1997: Pennod 7). Bellach, mae Parkes (1992) a Lucas (1997) wedi gosod y llwyfan.

Y mae fel pe bai Llaw D yn arfer trefn wahanol ei nodiant (ac, efallai, ei hymhlygiadau), ond eto nid annhebyg i eiddo'r cyfnod diweddar:⁷⁴

	ATALNODAU	
PEREDUR	HYD Y SAIB	DIWEDDAR
. A	hir	.
. A	canolig	;
. a	byr	,

Mae'r dyfyniad nesaf yn enghreifftio'r drefn bosibl hon mewn cydestun mwy estynedig. Rhan o baragraff ydyw yng ngolygiad Goetinck (1976: 10) ac fe'i cyflwynir i'r darllenydd modern yn y modd arferol: yn ddarn o ryddiaith ddiweddaraidd:

Ac yna y doeth y goet mawr, nyal, ac ymhell yn y coet ef a welei llanerch o vaes, ac yn y llanerch y gwelei pebyll, ac yn rith eglwys ef a gant y pater wrth y pebyll. A pharth a'r pebyll y daw. A drws y pebyll a oed yn agoret a chadeir eur yn agos y'r drws, a morwyn wineu telediwr yn eisted yn y gadeir, a ractal eureit am y thal, a mein damllywychedig yn y ractal, a modrwy eur vras ar y llaw.

Mor wahanol yw atalnodi'r gwreiddiol, sydd yn ddigon nodweddiadol yn cynnig inni hefyd dair gradd o faintioli i'r llythrennau (WM 60, col.120):

Ac yna y doeth y goet ma'or nyal. Ac ymhell yn y coet . ef a 'elei llanerch o vaes. Ac yn y llanerch y g'elei pebyll. Ac yn rith egl'wys ef a gant y pater 'rth y pebyll. A pharth ar pebyll y da' . a dr'ws y pebyll a oed yn agoret. a chadeir eur yn agos yr dr'ws. a mor'wyn wineu teledi'wr yn eisted yn y gadeir a ractal eureit am y thal. a mein damllywychedig yn y ractal. A modr'wy eur vras ar y lla'.

O ystyried bod y graddfeydd o lythrennau yn cyfuno â'r atalnodau i gyfleu tair gradd o seibiau, y strwythur a ymhlygir yma yw (ac rwy'n mentro dynodi'r prif acenion pwys er mwyn cyfleu rhythmiau posibl y darllen):

RHENG	CYMALAU
1	Ac yna y doeth y 'goet 'ma'or 'nyal .
2	Ac ym'hell yn y 'coet.
3	ef a 'elei 'llanerch o 'vaes.
2	Ac yn y 'llanerch y g'elei 'pebyll.
2	Ac yn rith 'eglwys ef a 'gant y 'pater 'rth y 'pebyll.
1	A pharth ar 'pebyll y 'da'.
2	A 'dr'ws y 'pebyll a oed yn a'goret.
2	A 'chadeir 'eur yn 'agos yr 'dr'ws.
2	A 'mor'wyn 'wineu 'teledi'wr yn 'eisted yn y 'gadeir a 'ractal 'eureit am y 'thal.
3	a 'mein 'damllywy'chedig yn y 'ractal.
1	A 'modr'wy 'eur 'vras ar y 'lla'.

⁷⁴ Yn y sistem hon ni fyddai rheswm dros roi <P> i'r enghraifft gyntaf o *Peredur* isod eithr fe'i ceir yn yr ail am mai ar ddechrau uned y daw, ar ôl < . >:

. Etlwm a deuth traygefyn at peredur . Peredur a erchis ida'vynet ... (ll. 829-30)

Dyma roi amlygrwydd arbennig i'r fodrwy, y gwrthrych y mae ei gymryd yn arwain at gloi'r episod. Nid rhan – ddamweiniol, bron – o ymadael unfrawddegol yw hynny, fel yr awgrymir gan olygiad Goetinck (1976: 11):

Y vodrwy a gymerth Peredur, ac estwg ar pen y lin a rodi cussan y'r vorwyn, a chymryt y varch a chychwynu y ymdeith.

ond gweithred arwyddocaol, clo ar gyfres o symudiadau bwriadus sy'n cynnwys ffarwelio mewn dull bonheddig onid sifalrïaidd:

Y vodróy a gymerth peredur. Ac estóg ar pen y lin a rodi cussan yr voróyn. A chymryt y varch a chychwynu y ymdeith. (WM 121.9-12)

Y strwythur a awgrymir yw:

RHENG	CYMALAU
1	Y vodróy a gymerth peredur.
1	Ac estóg ar pen y lin a rodi cussan yr voróyn.
2	A chymryt y varch a chychwynu y ymdeith.

Dwy brif weithred sydd yma: cymryd y fodrwy a ffarwelio. Prin bod yr ymadael ei hun yn bwysig: yn hytrach na bod yn un o gyfres o weithrediadau cyfwerth (cymryd y fodrwy, penlinio, cusanu, cymryd ei farch, ymadael), mae'r ymadael yn ddarostyngedig i'r ffarwelio ac yn ei ddilyn yn naturiol yn fformiwla gloi nad oes iddi fawr bwys o ran ei chynnwys.

Mae'r strwythur a ymhlygir yn y darn enghreifftiol nesaf yn gymhlethach am ei fod yn cynnwys y *punctus elevatus* a'r colon cyfwerth, sydd yma'n dilyn amod. Y mae fel pe bai'r atalnodi yn cyfleu sigl y datgan:

RHENG	CYMALAU
2	O chlyóy diaspat ;
1	dos órthi.
3	a diaspat góreic anat diaspat o'r byt.
2	O góely góreic tec ;
1	gordercha hi.
4	kyn ny'th vynho :
3	góell gór a ffenedigach y'th óna no chynt.

Ni ellir gwerthuso arwyddocâd olyniadau fel yr uchod heb ystyried hefyd absenoldeb atalnodi. Cymharer y ddau ddyfyniad canlynol, araith weddol hir gan yr Ymerodres wrth iddi gyfarch Peredur:

'Mi a wn dy hynt. Mynet yd wyt y ymlad a'r adanc, ac ef a'th lad, ac nyt o'e dewred namyn o ystryw. Gogof yssyd idaw, a philer maen yssyd ar drws yr ogof, ac ef a wyl pawb o'r a del y mywn ac nys gwyl neb efo. Ac a llechwayw gwenwynic o gyscawt y piler y llad ef bawb. A phei rodut ti dy gret vvg caru yn wwyhaf gwreic, mi a rodwn it vaen val y gwelut ti efo pan elut y mwyn [sic], ac ny welei ef tydi.' (Goetinck 1976: 47.12-7)

'Mi a ón dy hynt . mynet yd óyt y ymlad a'r adanc ac ef a'th lad . Ac nyt o'e deóred namyn o ystryó . Gogof yssyd idaó . A philer maen yssyd ar drós yr ogof . Ac ef a wyl paó b o'r a del y myón . ac nys góyl neb efo . Ac a llechwayó góenóynic o gyscaót y piler y llad ef baó b . A phei rodut ti dy gret vvg caru yn

vóyhaf góreic mi a rodón it vaen val y góelut ti efo pan elut ymyón | Ac ny welei ef tydi' . (ll. 752-8)

Mae'r llinell olaf ond un uchod yn enghreifftio ffenomen achlysurol yn y testun, sef defnyddio llythyren fawr ar ddechrau llinell er nad oes atalnod ar ddiwedd y llinell flaenorol: y mae fel pe bai diwedd llinell yn gweithredu'n atalnodol. O ran rhannu'r testun, yn hytrach na phum brawddeg Goetinck (a thair o'r rheini'n amlgymalog), gellir gweld yma strwythur a rhythmau ymhlygedig digon gwahanol:

RHENG	CYMALAU
1	Mi a ón dy hynt .
2	mynet yd óyt y ymlad a'r adanc ac ef a'th lad .
1	Ac nyt o'e deóred namyn o ystryó .
1	Gogof yssyd idaó .
1	A philer maen yssyd ar drós yr ogof .
2	ac ef a wyl paóð o'r a del y myón .
3	ac nys góyl neb efo .
2	ac a llechwayó góenóynic o gyscaót y piler y llad ef baóð .
1	A pheir rodut ti dy gret vyg caru yn vóyhaf góreic mi a rodón it vaen val y góelut ti efo pan elut ymyón
1	Ac ny welei ef tydi .

Nid byr yw pob olyniad uchod: mae'r ail, er enghraifft, yn cynnwys dau Gymal, y gellir eu darllen yn un uned ddi-saib. Eithr yr olaf ond un yw'r hwyaf. Ar ôl cyfres o osodiadau sy'n creu tensiwn cynyddol y daw hwn, yn llifeiriant amlgymalog sy'n codi, gellir tybied, i uchafbwynt dramatig: caiff Peredur faen hud a fydd yn ei alluogi i weld yr addanc rheibus. Ond yn yr olyniad byr nesaf y mae'r gwir uchafbwynt: prif rinwedd y maen fydd peri i Beredur fod yn anweladwy. Wrth neilltuo'r Cymal olaf, mae'r atalnodi a'r priflythrennu fel pe baent yn tywys y darllenydd i roi amlygrwydd arbennig iddo.

Gwelwyd uchod sut y gall yr atalnodi ddylanwadu ar ddehongli strwythur y testun. Gall hynny gwmpasu dehongli ambell gystrawen hefyd. Cymharer, er enghraifft, yr olyniadau canlynol:

Ac ynteu a deuth ef a'r melinyd (ll. 898)

Ac ynteu a deuth, ef a'r melinyd. (HP 55.2)

Er nad yw ond manyn, cyfleu barn bersonol y golygydd am y gystrawen y mae'r coma, arwydd sy'n gorfodi'r darllenydd i roi acen bwys ar <ef>. Ond gan na cheir atalnod yn y llawysgrif gallai'r rhagenw fod yn ddiacen, a'r cyfuniad <ef a> (<=> /e:v a, ev a/ neu /eva/) fod gam ymhellach yn y datblygiad i gyfeiriad /evo/ 'efo'.

Mae i atalnodi ymhlygiadau hefyd yn ein dirnadaeth o ddatblygiad *gwedy*. Dengys ei hatalnodi mai arddodiad yw *gwedy* i Goetinck yn ddiwahân, dadansoddiad a all gyflwyno elfen o gloffni i'r gystrawen; cf.

Ny dywawt y gwr y Peredur beth oed hynny, nys gofynnwys ynteu idaw.

Gwedy tewi yspeit vechan, ar hynny, llyma dwy vorwyn yn dyuot y mywn... (HP 20.13-4)

O ddarllen y testun yn unol ag atalnodi'r llawysgrif, fodd bynnag, gellir deall mai adferf sy'n cyfleu 'wedi hynny' yw <gŵedy>:

Ny dywaŵt y gŵr y peredur beth oed hynny . nys gofynnŵys ynteu idaŵ . Gŵedy tewi yspeit vechan . ar hynny llyma dŵy vorŵyn yn dyuot ymyŵn a dyscyl vaŵr y rygthunt . (ll. 248-50)

Yn yr un modd, mae'r darlleniad canlynol yn glogyrnaidd yn HP:

Ac yna y kerdassant wy racdunt, ac y kerdawd Peredur yn eu hol. A gwedy eu diflannu hyt nas gwelei, yna y kyfaruu ac ef, yn eisted ar ben cruc, y wreic teccaf o'r a welsei eiroet. (HP 47 8-11)

Unwaith eto, fodd bynnag, mae'r olyniad sy'n cynnwys <gŵedy> wedi ei atalnodi'n glir yn y llawysgrif ag <A> ddechreuol a *punctus* diweddol, arwyddion mai uned hunan-gynhaliol sydd yma a bod modd, felly, briodoli statws adferf i <gŵedy>:

Ac yna y kerdassant ŵy racdunt . Ac y kerdaŵd peredur yn eu hol . A gŵedy eu diflannu hyt nas gŵelei . Ac yna y kyfaruu ac ef yn eisted ar ben cruc ; y wreic teccaf o'r a welsei eiroet . (ll. 749-52)

Mae derbyn statws adferfol posibl <gŵedy> yn y rhyddiaith hon yn agor posibilrwydd arall ar gyfer dehongli'r olyniad problematig canlynol, a ddiwygiwyd gan Goetinck:

A gwedy bwrw o Peredur y thrychanhwr teulu y'r llawr ac eisted ar y neill law, 'Y diolchaf y Duw kaffel gwas kyn deccet a chyn dewret a thi...' (HP 50.13-16)

Mae'r darn hwn, sy'n cynnwys y <kaffes> anodd ei ddehongli, yn dod yn agos i un o'r gwallau hepgor (ll. 797) ac o wybod bod gwallau'n tueddu i ddigwydd mewn clymau yng nghynnyrch Llaw D, y mae'n ddigon posibl bod yma amryfusedd pellach a bod diwygiad Goetinck yn briodol. Ond craffer ar eiriad y gwreiddiol:

A gŵedy y bŵrŵ o peredur . y thrychanhŵr teulu y'r llaŵr . Ac eisted ar y neill laŵ . 'Y diolchaf y duŵ kaffes gŵas kyn deccet a chyn deŵret a thi . (ll. 811-3)

O ychwanegu atalnod golygyddol – < · > – fe'n gadewir â gosodiad dramatig – y *thrychanh* † *teulu y'r lla* † – a gaeir yn gonfensiynol â *punctus* ac a ddilynir gan brif uned arall sy'n dechrau ag <A>. Nid rhaid, wrth gwrs, mai dyma'r dehongliad priodol, ond y mae'n cyfyngu ar y golygu, mae'n dinoethi'r broblem, ac mae'n caniatáu i'r darllenydd ddehongli yn ôl ei weledigaeth ef ei hun.

Un o 26 enghraifft (wyth ohonynt yn y pymtheg llinell gyntaf) yr ymglywyd ag ychwanegu atalnod atynt yw'r olaf uchod. I gynorthwyo'r darlennydd drwy arbed amwysedd y gwnaethpwyd hynny ac er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng yr atalnodau golygyddol hyn a'r rhai gwreiddiol, fe argreffir y blaenaf yng nghanol y llinell: < · >. Enghreifftiau yw:

Ac yna y dywaŵt gŵalchmei . 'yrofi a duó gei · drŵc y medreist kyflauanu ar vaccóy val hŵn yr na allei dywedut' . (ll. 634-6)

'Arglóyd · y marchaŵc yssyd yg karchar genhyt yó hŵnnŵ' . (ll. 1100)

'Arglóyd · duó a talho it . ny deuthum i yma y wreicca' . (ll. 1107-8)

Fel y gwelir, ychwanegwyd dyfynodau at yr olyniadau uchod. Gwnaethpwyd hynny'n rheolaidd yn y golygiad oherwydd nad hawdd bob amser yw gwybod pryd y bydd cyfnewid rhwng siaradwyr. Ond gall fod gan ddyfynodau swyddogaeth ddeongliadol hefyd. Sylwer ar yr enghraifft ganlynol:

Ynteu a dywawt nas atwaenat.

'Gwr oed a chwnsallt coch ar uchaf y arueu, a tharyan velen ar y yscwyd.'
(HP 65.5-8)

Gan nad oes dyfynodau yn y gwreiddiol, ni ellir bod yn sicr bod ynddo araith union. Gan hynny, nis cyflwynwyd i'r golygiad presennol:

Ynteu a dywaŵt nas atwaenat . gŵr oed a chŵnsallt coch ar uchaf y arueu a tharyan velen ar y yscŵyd . (ll. 1089-91)

Fel y nodwyd uchod, un o dasgau'r golygydd yw ceisio deall bwriadau'r ysgrifydd. Ymdrech ddigon amrwd sydd uchod i fwrw'r cwch i'r dŵr o ran ceisio dehongli arwyddocâd atalnodi a llythrennu *Peredur*. Ond ymddengys i mi nad mater o hap a damwain yw'r nodweddion hyn yn Llaw D a bod yma gydberthynas ystyrion rhyngddynt. Gall y *punctus* ar ei ben ei hun wahanu unedau ystyr ('brawddegau'), ond ymddengys hefyd fod y *punctus* a'r *punctus elevatus* yn rhyngweithio â'r tair gradd o lythrennau mewn sustem ddeongliadol gywrain sy'n cyfleu barn yr ysgrifydd am y modd y dylid darllen – neu, efallai, ddatgan – ei destun.

ATODIAD A: Ffurf y fannod o flaen <iarll, iarllles, iaghŵr>*Y rhan gyntaf*

LLINELL	ENGHRAIFFT
47	yr iarllles
349	yr iarll
358	yr iarll
367	yr iarll
368	y iarllles
385	y iarll
386	y iarll
436	y iarllles
437	y iarllles

Yr ail ran

LLINELL	ENGHRAIFFT
646	y iaghŵr
807	yr iarllles
1006	y iarll
1009	yr iarll
1010	y iarll
1085	yr iarll
1093	yr iarll
1094	yr iarll
1096	yr iarll

ATODIAD B: (chw-)

LLINELL	FFURF
4	chwemeib
13	chware
107	chŵedyl
141	wharyei
142	chŵaryaf
197	chware
199	chware
200	chware
200	chware (eto)
262	chwaer
269	chwaeruaeth
271	chwaer
318	chwethorth
321	chwaer
327	chwaer
337	chwaer
352	chwaer
357	chwedleu
400	chwaer
492	chweric

LLINELL	FFURF
538	chwaer
662	chwaer
795	chwiorod
796	whaer
817	whare
893	wharyaŵd
953	whech
963	chwedyl
990	chwaer
999	chware
1000	chwaryut
1021	chwedlydyaeth
1044	chwedyl
1056	wherthin
1087	chwedleu
1088	chwedleu
1095	chwedleu
1095	chwedleu (eto)
1109	chwedleu
1110	chwedleu

ATODIAD C: (-odd)*Berfau yn <ŷs> yn unig*

darogannóys	diffllannóys	dilynoys
dygôydóys	gôascóys	gôledychóys
llafassóys	llamóys	trigyóys

*Dybledau yn <ŷs> ac <a *d>*

byryóys	byryaóð
kerdóys	kerdaóð
kychwynnóys	kychwynnaóð
kyhyrdóys	kyhyrdaóð
kyrchóys	kyrchaóð
ellygóys	ellygaóð
gofynnóys	gofynnaóð

*Berfau yn <a *d> yn unig*

adaóð	deallaóð	edrychaóð
eistedaóð	eneinaóð	gôahardaóð
gôiscaóð	gôrthneuaóð	graessaôaóð
kyfarchaóð	kymhellaóð	kyttuunaóð
kywiraóð	lladaóð, ymladaóð	lledaóð
mynnaóð	ordinaóð	paraóð
symudaóð	talaóð	tynnaóð
wharyaóð	ymchoelaóð	ymwanaóð